

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Y Beibl: Stori Fawr Duw

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair: llyfrau yn y gyfres

Porthi'r Pum Mil
Gideon - yn ymladd dros Dduw
Y Nadolig
Teulu Newydd Ruth
Moses - Y Dywysoges a'r Baban
Pasg – Iesu'r Brenin
Samuel – Duw yn siarad â Samuel
Pentecost – Newyddion Da lawn
Daniel – yn ffau'r Llewod
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas
Dechrau'r byd: Hanes y Creu
Iesu'n dangos ei allu
Joseff yn yr Aifft
Y Nadolig: Rhodd Duw
Iesu: Ffrind mewn angen
Moses: Gadael yr Aifft
Y Pasg: trwy lygaid Pedr
Abraham: ffrind Duw
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys
Y Beibl: Stori Fawr Duw

Y Beibl: Stori fawr Duw © Cyhoeddiadau'r Gair 2009

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 632 1
Argraffwyd yng Nghymru gan Finline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn
mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr,
heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith
yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd flynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwers, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Y Beibl

Ydych chi'n hoff o wneud jig-so? Roedd fy chwaer a minnau'n derbyn jig-so bob Nadolig yn anrheg, ac am nifer o flynyddoedd, ceisiais innau ddilyn yr un traddodiad gyda fy mhlant fy hun! Eleni cafodd un o'r plant jig-so 3D, siâp pêl! Roeddwn yn bur amheus y byddai'n medru ei orffen i ddweud y gwir! Ond, roedd gan y jig-so gyfrinach 'anweledig' – roedd pob darn wedi'u rhifo tu mewn - ac ni chafwyd llawer o drafferth i greu'r jig-so siâp pêl gyda llun o gymeriadau'r 'Simpsons' arno!


Trwy'r gyfres hon gobeithiwn roi darnau 'jig-so' at ei gilydd er mwyn gweld y darlun cyfan. O wythnos i wythnos byddwn yn cyflwyno hanesion o'r Beibl i'r plant a'r ieuenctid, fel hanesion unigol. Ond mae'r hanesion hyn yn rhan o hanes mwy, hanes ymwneud Duw â'r byd a'r bobl sydd ynddo. Cynhyrchwyd llawer o lyfrau a chyrsgiau yn ddiweddar sy'n ceisio ein cynorthwyo i weld y 'Darlun Mawr', h.y. i edrych ar y Beibl fel cyfanwaith.

Wrth baratoi, cefais fy synnu unwaith eto o weld sut mae bywyd a marwolaeth Iesu yn cyflawni gymaint o themau'r Hen Destament – y Cyfamod, y Gyfraith, Iachawdwriaeth. Ni ddylwn synnu, oherwydd mae gan y Beibl 'gyfrinach' tebyg i'r jig-so – Duw yw awdur y Beibl cyfan, a hanes Duw sydd ynddo. Pe bawn yn ystyried y Beibl o'r safbwynt yma, wel, fe welwn bod rhifau ar y gwahanol ddarnau ac mae'r darnau i gyd yn ffitio i'w lle i greu darlun hardd a heriol.

Gyda'r plant lleiaf, byddwn yn ystyried hanes y proffwyd Jeremeia a'r Brenin Joseia, dau gymeriad llai adnabyddus efallai a fydd yn ein harwain i weld bod y Beibl yn cynnwys negeseuon gan Dduw a rheolau Duw. Byddwn hefyd yn treulio amser yn trafod hanes Iesu.

Bydd y plant oed cynradd hefyd yn treulio amser yn ystyried hanesion am Gyfraith Duw ac am ddyfodiad Iesu i'r byd. Mae gwersi y bobl ifanc yn ceisio cyflwyno 'hanes Duw' mewn tair rhan: y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, a byddwn yn ystyried pa ran sydd gyda ni yn hanes Duw heddiw fel unigolion.

Rydw i wedi cyfeirio unwaith at y syndod a brofais wrth baratoi, ond i ddweud y gwir, dyma fy mhrofiad gyda phob un o'r llyfrau! Wrth inni ystyried mawredd a thrugaredd yr Arglwydd tuag atom, dim ond un teimlad ydy 'syndod' ymysg llawer sy'n llenwi'r galon. Gyda gostyngeddwydd a diolchgarwch, cyflwynir y gwersi gyda gweddi taer am i'r Arglwydd agor ein llygaid i weld gogoniant Ei Air, ei Fab, i weld gogoniant Stori Fawr Duw.



Rhestr Adnoddau

Llyfrau cefndir am y Beibl gan Cyhoeddiadau'r Gair

Darganfod y Beibl £5.95

Beth yw'r Beibl? £6.99

Dysgu am y Beibl £4.99

Antur trwy'r Beibl £12.50

Llawlyfr y Beibl i Blant £10.00

Beibl Bach i Blant: tud. 20, 120.

Beibl Lliw y Plant: tud.20 Gardd Eden; tud.82 Y Deg Gorchymyn; tud. 156 Joseia; tud. 158 Jeremeia

Y Beibl i Blant mewn 365 o Storiâu: Hanes y Cwmp rhif 3; Hanes y Deg Gorchymyn rhif 61-64; Hanesion Joseia rhif 193; Hanesion Jeremeia rhif 195 ymlaen.

Ffilmiau: Cyfres y Beibl Fideo: Y Cwmp, Y Deg Gorchymyn; Joseia; Jeremeia.


Ar y Gdd: Hanes y Creu a'r Cwmp



Oed Meithrin – 5 Y Beibl: Stori Fawr Duw

Amcanion:

- ❖ i gyflwyno'r syniad bod Duw yn siarad â ni yn y Beibl
- ❖ i ystyried bod y Beibl yn cynnwys 'rheolau' Duw ac yn dangos inni sut y gallwn fyw i'w blesio
- ❖ i weld bod Iesu yn dangos inni faint mae Duw'n ein caru.




AMSER CHWARAE

1. Chwarae llyfrgell

Bydd angen amrywiaeth o lyfrau, e.e. llyfrau stori, llyfrau hanesyddol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau barddoniaeth. Hefyd, hen gardiau credyd fel cardiau benthyg (mae 'top-up-cards' ffonau symudol yn ddefnyddiol ac ar gael am ddim o archfarchnadoedd).

Gosodwch y llyfrau ar fwrdd ac edrychwch ar y llyfrau gyda'r plant, gan esbonio'r gwahanol fathau o lyfrau sydd ar gael. Trafodwch pa lyfrau y mae'r plant yn eu hoffi orau ac o ble maen nhw'n cael llyfrau. Trafodwch mynd i'r llyfrgell. Anogwch y plant i esgus eu bod mewn llyfrgell yn dewis llyfr i fenthyg. Rhwch 'gerdyn llyfrgell' i bawb, gydag un o'r plant yn chwarae rôl y llyfrgellydd. Mae'r llyfrgellydd yn 'sweipio' cardiau'r plant ac yn dweud wrthynt pa bryd i ddychwelyd y llyfrau. Gall y plant esgus eu bod yn mynd â'r llyfrau adref a'u ddarllen, cyn mynd â'r llyfr yn ôl i'r llyfrgell.

Dangoswch wahanol Feiblau Plant i'r grŵp gan drafod eu cynnwys. Wedyn, dangoswch Feibl ac esboniwch bod y llyfr hwn yn ein dysgu am Dduw ac y byddwn yn clywed mwy am y Beibl heddiw oherwydd mae'r Beibl yn lyfr arbennig iawn, iawn.



2. Gêm y negeseuon

Bydd angen dis a bocs sy'n cynnwys swp o negeseuon ar ddarnau o bapur. O flaen llaw, rhowch smotyn o bapur lliw ar un o wynebau'r dis.

Dylai'r plant gymryd eu tro i daflu'r dis. Os bydd y dis yn glanio ar y wyneb lliw, dylai'r plentyn gymryd neges o'r bocs a'i darllen – neu ei rhoi i chi i'w darllen - a'i chyflawni. Gellwch gynnwys negeseuon megis, 'Dywedwch bore da wrth bawb yn y dosbarth,' 'Rhowch y creonau ar y bwrdd,' 'Gofynnwch i bawb ganu Mi welais Jac y Do.'

Dangoswch wahanol Feiblau Plant i'r grŵp gan drafod eu cynnwys. Wedyn, dangoswch Feibl ac esboniwch bod y llyfr hwn yn llawn o negeseuon gan Dduw ac y byddwn yn clywed mwy am y Beibl heddiw oherwydd mae'r Beibl yn lyfr arbennig iawn, iawn.

AMSERLEN

Wythnos 1:

Amser Chwarae 1 neu 2; Stori 1;

Amser Creadigol 1 neu 2; Cân;

Wythnos 2:

Amser Chwarae 3; Stori 2;

Amser Creadigol 2 neu 3; Rhigwm;

Wythnos 3:

Amser Chwarae 4; Amser Creadigol 4;

Stori 3; Gêm dilyn Iesu; Gweddi.



AMSER CHWARAE

3. 2 Gêm Dilyn y Rheolau

Chwaraewch un (neu ddau!) o'r gemau traddodiadol canlynol i bwysleisio pwysigrwydd dilyn rheolau.

- ❖ Mae Seimon yn dweud
- ❖ Ar y lan, yn y môr

Ar ôl chwarae, trafodwch reolau cyfarwydd adref, yn yr ysgol, mewn chwaraeon.

Dangoswch Feibl i'r plant a'u hatgoffa bod y Beibl yn cynnwys negeseuon gan Dduw. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes am rai o negeseuon Duw yn ein stori wir o'r Beibl heddiw sydd am frenin o'r enw Joseia.

4. Pethau arbennig

Bydd angen amrywiaeth o bethau sy'n arbennig i chi, e.e. llun o rywun sy'n bwysig i chi; eitem o emwaith; offeryn; ffôn symudol; allweddi car neu dŷ ayyb. Hefyd, tegau meddal bach.

Dangoswch yr eitemau i'r plant, un ar y tro, gan esbonio pam bod pob un yn werthfawr i chi'n bersonol. Eisteddwch mewn cylch ac esboniwch wrth y plant eich bod am iddynt sôn wrth bawb am rywbeth sy'n bwysig iddyn nhw, ac ond yn cael cael siarad pan fyddant yn gafael yn y tegau meddal. Rhowch y tegau i'r plentyn cyntaf, a'i (h)annog i siarad am rywbeth sy'n arbennig iddynt, cyn estyn y tegau i'r plentyn nesaf. Parhewch nes bod pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan.

Dangoswch Feibl i'r plant gan eu hatgoffa bod y Beibl yn cynnwys negeseuon gan Dduw. Un o'r negeseuon pwysicaf yw bod plant a phobl yn arbennig i Dduw.

5. Gêm 'Dilyn Iesu'

Bydd angen Atodiad 1 arnoch, wedi'i chwyddo a'i liwio, a'i dorri'n bedwar. Hefyd, chwaraewr Cdd.

Gosodwch y lluniau ar y waliau o amgylch yr ystafell. Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant ac esboniwch bod rhain yn rhai o'r llefydd y bu Iesu'n ymweld â hwy. Atgoffwch y plant am yr hyn a wnaeth Iesu ymhob ardal, e.e.

- ❖ wrth y llyn – gwelodd Iesu ddynion yn trwsio eu rhwydi pysgota, a galwodd arnynt i'w ddilyn, i fod yn ffrindiau arbennig iddo
- ❖ yn y dre - bu i Iesu gyfarfod â llawer o bobl sâl a'u gwella
- ❖ yn y mynyddoedd - aeth pobl o bell ac agos i wrando ar Iesu'n siarad am Dduw. Hefyd, aeth Iesu i'r mynyddoedd i gael llonydd er mwyn cael siarad gyda Duw, ei Dad, mewn gweddi
- ❖ mewn cwch – un tro, roedd Iesu wedi mynd i gysgu mewn cwch pan ddaeth storm ofnadwy: tawelodd Iesu'r storm

Wedyn, chwaraewch y gêm. Tra bod y gerddoriaeth yn chwarae, dylai'r plant symud o amgylch yr ystafell. Wrth i chi dawelu'r gerddoriaeth, galwch "Dilyn Iesu i'r" ac ychwanegwch un o'r lleoliadau. Cewch ofyn i'r plentyn olaf i gyrraedd i eistedd i lawr, neu chwaraewch heb gael plant allan o'r gêm.

Dangoswch Feibl i'r plant a'u hatgoffa bod y Beibl yn llawn o negeseuon gan Dduw. Y neges bwysicaf oll yw bod Duw yn ein caru a'n bod yn arbennig iawn iddo. Roedd Iesu'n Fab Duw a daeth Iesu i'r byd i ddangos inni fod Duw yn ein caru.



AMSER STORI

1. Hanes Jeremeia – negeseuon gan Dduw (Jeremeia 36)

Bydd angen sgrôl syml gydag ysgriften arno a dillad i wisgo i fyny fel Jeremeia fel y gallwch adrodd yr hanes yn y person cyntaf. Hefyd, bag o Feiblau gwahanol, gan gynnwys y Beibl Cymraeg Newydd.

Dechreuwch drwy esbonio eich bod am actio person o'r Beibl heddiw, ac mai Jeremeia yw eich enw.

“Wel, blant, dwi am ddweud wrthyhych beth a ddigwyddodd i mi ychydig yn ôl. Proffwyd ydw i. Mae Duw yn siarad gyda mi a dwi'n rhoi'r neges i bobl Dduw. Weithiau, dydy'r bobl ddim yn gwranddo ar neges Dduw yn dda iawn, ond droeon eraill byddant yn gwranddo'n dda ac yn ufudd i Dduw.

Tipyn yn ôl, cefais neges hir, hir gan Dduw. Ysgrifennodd fy ffrind, Baruch, y neges ar y sgrôl hwn. *Dangoswch y sgrôl i'r plant, ei agor a'i gau.*

Dywedais wrth Baruch i fynd i'r Deml, lle'r oedd y bobl yn casglu i glywed negeseuon gan Dduw. “Baruch, mae'n rhaid i ti ddarllen y neges yr wyt wedi'i hysgrifennu ar y sgrôl i'r bobl. Felly, aeth Baruch i'r Deml a darllen o'r sgrôl, ‘Dydy Duw ddim yn hapus. Mae'n rhaid inni gyd wrando ar Dduw a byw y ffordd y mae Duw am inni fyw.’”

Yn y Deml y diwrnod hwnnw roedd rhai dynion a oedd yn gweithio i'r Brenin a dyma nhw'n clywed Baruch yn darllen y neges gan Dduw. Aethant â'r sgrôl a'i ddarllen i'r Brenin. Ond, doedd y Brenin ddim yn hoffi neges Duw!

Torrodd y sgrôl yn ddarnau bychain a'u taflu i'r tân!

Wel, nid dyna yw diwedd y stori, oherwydd rhoddodd Duw'r un neges imi eto ac ysgrifennodd Baruch y neges ar sgrôl arall. Roedd y neges mor bwysig fel nad oedd Duw yn fodlon bod y bobl yn peidio â chymryd sylw ohoni.”

Tynnwch ddillad Jeremeia a dangoswch y casgliad o Feiblau i'r plant. Yn olaf, dangoswch y Beibl Cymraeg Newydd iddynt. Esboniwch fod y Beibl yn llawn o negeseuon gan Dduw i ni heddiw. Trowch at lyfr Jeremeia ac esboniwch fod hanes Jeremeia yn y Beibl. Yn yr Ysgol Sul, rydym yn clywed hanesion o'r Beibl ac yn clywed negeseuon gan Dduw. Ond gallwn wrando ar negeseuon Duw adref hefyd os byddwn yn darllen y Beibl ein hunain neu os bydd rhywun yn darllen stori o'r Beibl inni. Gall Duw siarad â ni yn unrhyw le, trwy'r Beibl. Weithiau, byddwn yn galw'r Beibl yn ‘Gair Duw’, oherwydd geiriau Duw sydd yn y Beibl, wedi'u hysgrifennu er mwyn i bobl gael eu darllen. Gellwch gyfeirio'n ôl at Baruch yn ysgrifennu'r neges ar y sgrôl.

Beth sydd rhaid inni ei wneud os ydym eisieu gwybod beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym? Darllen y Beibl!



AMSER STORI

2. Hanes Joseia – Darganfod Llyfr y Gyfraith (2 Brenhinoedd 22)

Bydd angen y sgrôl o'r wythnos ddiwethaf a'i guddio o dan darn o gerdyn, coron a chlogyn (i un o'r plant gael chwarae rôl y Brenin Joseia), amrywiaeth o lyfrau sy'n cynnwys rheolau gan gynnwys llyfr rysetiau.

Dangoswch y llyfr rysetiau i'r plant, trowch i un o'r rysetiau ac esbonio i'r plant bod yn rhaid dilyn y rysâit yn ofalus er mwyn creu'r bwyd yma. Mae'r rysâit yn egluro'r dull cywir sut i greu'r bwyd. Dyma'r rheolau sy'n rhaid eu dilyn os ydym am gael y bwyd i flasun iawn. Esboniwch bod gan Dduw reolau ar gyfer ei bobl, a heddiw byddwn yn clywed hanes gwir o'r Beibl am reolau Duw.

Gwisgwch un o'r plant fel y Brenin Joseia. Esboniwch wrth y plant fod Joseia wedi dod yn Frenin pan oedd yn wyth oed! Cyfeiriwch at blentyn (sy'n 8 oed) sy'n adnabyddus i'r plant a thrafodwch bod yn Frenin mor ifanc. Dangoswch ble yn union yn y Beibl y ceir yr hanes am Joseia a chadwch y Beibl ar agor yn rhywle amlwg yn ystod y stori. Esboniwch bod y Beibl yn dweud bod Joseia yn Frenin da iawn a'i fod yn caru Duw ac eisiau plesio Duw. (Efallai yr hoffech gyfeirio at y Brenin yn hanes yr wythnos ddiwethaf - Jehoiacim - yr un a falodd y sgrôl gyda neges Duw oherwydd nad oedd am wrando ar Dduw).

Roedd Joseia wedi gweld bod y Deml mewn cyflwr gwael. *Cael y brenin i gerdded o amgylch fel petai yn archwilio'r Deml.* Y Deml oedd capel pobl Dduw yr adeg hwnnw. Doedd pobl Dduw ddim wedi bod yn gofalu am y Deml yn dda iawn, am nad oeddent yn cofio bod y Deml yn le arbennig. Roedd angen trwsio'r

pren yno ac adeiladu rhai o'r waliau a oedd wedi disgyn.

Felly, dyma Joseia yn penderfynu clirio'r Deml a'i gwneud yn hardd eto. Cael y plant i gyd i feimio'r canlynol:
Roedd yno waith llifio a morthwyllo i drwsio'r pren; gwaith adeiladu'r waliau; gwaith glanhau a thwtio.

Wrth iddynt weithio yn y Deml dyma un o'r gweithwyr yn dod ar draws sgrôl. Codwch y sgrôl sydd wedi bod o dan y cerdyn o'r golwg. Aeth â'r sgrôl i'r Brenin Joseia. Agorodd Joseia'r sgrôl a gwaeddodd 'Rydym wedi dod o hyd i Lyfr y Gyfraith.'

Roedd y llyfr hwn yn un pwysig iawn, iawn. Dyma'r llyfr a oedd yn dweud sut yr oedd pobl Dduw i fod i fyw - llyfr rheolau Duw. Roedd y llyfr wedi bod ar goll ers amser hir. Ar ôl darllen llyfr y Gyfraith, roedd Brenin Joseia yn gwybod nad oeddent yn byw mewn ffordd a oedd yn plesio Duw o gwbl – nad oeddent yn cadw rheolau Duw.

Felly, galwodd Joseia'r holl bobl i'r Deml i wrando ar Lyfr y Gyfraith. Ar ôl clywed beth oedd yn y llyfr roedd y bobl yn drist iawn, oherwydd roeddent yn deall nad oeddent wedi bod yn cadw rheolau Duw. Gweddïodd Joseia a gofynnodd i Dduw i faddau iddynt a phenderfynodd pawb eu bod am gadw rheolau Duw o hyn ymlaen."

Mae gan y Beibl reolau ar ein cyfer ninnau heddiw. Sut fyddwn ni'n gwybod beth ydyn nhw? Trwy ddarllen y Beibl. Trwy ddod i'r Ysgol Sul neu Glwb Plant, lle bydd rhywun yn ein helpu i wybod beth sydd yn y Beibl.



AMSER STORI

3. Hanes Iesu – Pobl arbennig

Bydd angen y lluniau o Atodiad 2 a chefnidir iddynt yn barod. Er mwyn creu'r cefndir bydd angen y 5 dudalen o gerdyn maint A4 gyda'r lluniau canlynol: un gyda llyn ac awyr las, un gydag adeiladau syml i greu tref, un gyda bryn, un gyda cwch ar llyn a thonau mawr, un gyda siâp calon. Gweler Atodiad 1 am syniadau. Mae Atodiad 1 hefyd ar gael ar y Gdd. Efallai yr hoffech liwio'r tudalennau cefndir o flaen llaw. Ar ôl gorffen adrodd yr hanes gellwch osod y tudalennau at ei gilydd i greu llyfr, felly, byddai'n syniad cael un dudalen arall er mwyn creu clawr. Hefyd, y Beibl Cymraeg Newydd.

Atgoffwch y plant bod y Beibl yn lyfr arbennig sy'n llawn o negeseuon gan Dduw. Heddiw, byddwn yn clywed y neges bwysicaf gan Dduw ac am y person arbennig a ddaeth â'r neges inni - Iesu.

Gosodwch y cefndir mewn lle amlwg. Dywedwch wrth y plant ein bod am ddilyn Iesu heddiw, fel y gwnaeth ffrindiau Iesu. Dangoswch i'r plant sut i wneud i'w bysedd gerdded.

Yn gyntaf, dilynwn Iesu at y llyn - mae'r plant yn *cerdded* eu bysedd at y llyn. Gludwch y lluniau o'r cychod a'r dynion wrth y llyn. Dyma ffrindiau cyntaf Iesu yn trwsio eu rhwydi pysgota. Mae Iesu'n eu galw - "Andreas, Seimon, Iago, Ioan. Dewch gyda fi. Dwi am i chi fod yn ffrindiau arbennig i mi."

Yna, mae Iesu'n mynd i'r trefi. Gludwch y tai a'r bobl ar y dudalen nesaf ac anogwch y plant i *gerdded* eu bysedd at y dref. Yn y trefi roedd llawer o bobl yn rhedeg at Iesu. Mae Iesu'n

gwella pobl sâl ac yn rhoi golwg i bobl ddall. Mae llawer o bobl angen help Iesu.

Nesaf, gludwch y coed a'r blodau ar y bryn. Gofynnwch i'r plant i *gerdded* i fyny'r mynydd. Dilynodd llawer o bobl Iesu er mwyn gwranddo arno'n siarad am Dduw. Dywedodd Iesu fod Duw'n bwydo'r adar a rhoi'r petalau ar y blodau. Ond, dywedodd eu bod nhw'n llawer mwy gwerthfawr na'r blodau a'r adar.

Yn olaf, *cerddwn* at y llyn. Gludwch y cwch a'r cymylau du ar y cefndir. Mae Iesu a'i ffrindiau yn y cwch, mae Iesu'n cysgu ac mae yna storm fawr wedi codi. Mae ffrindiau Iesu'n ofnus iawn ac yn deffro Iesu. Mae Iesu'n codi ac yn dweud wrth y gwynt i beidio, mae'r storm yn tawelu! Mae ffrindiau Iesu'n synnu. Maen nhw'n gwybod bod Iesu'n rhywun arbennig iawn. Ac mae Iesu'n esbonio iddynt ei fod yn Fab Duw.

Dangoswch y groes i'r plant, a'i gludo ar y dudalen gyda'r galon. Beth oedd y neges oedd gan Iesu oddi wrth Duw, ei Dad? Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau ei fod am farw ar y groes er mwyn dangos iddynt faint y mae'n eu caru. Mae gweld y groes yn ein hatgoffa bod Duw a Iesu yn ein caru, a dyma neges bwysicaf y Beibl i gyd a dyna pam bod yna groes ar glawr y Beibl. *Dangoswch y Beibl ac arwydd y groes i'r plant.*

Chwaraewch y gêm 'Dilyn Iesu' (o'r *Amser Chwarae*) i atgyfnerthu'r hyn a ddywedoch yn ystod yr amser Stori heddiw.



AMSER CREADIGOL

1. Barod i wrando: Baner o negeseuon

Bydd angen darn mawr o bapur neu ddefnydd yn gefndir; lluniau i addurno'r faner o'r Gdd sef, negeseuon a lluniau o Feiblau; glud; offer lliwio. Teitl i'r faner - hefyd ar gael ar y Gdd. Hen catalogau gyda lluniau o ffônau symudol a siswrn.

Cynorthwywch y plant i ddarllen y negeseuon, gan esbonio mai rhai o negeseuon Duw yw'r rhain sydd i'w cael yn y Beibl. Gadewch i'r plant addurno'r negeseuon ac i liwio'r Beiblau cyn eu gludo ar y cefndir. Wedyn, torrwrch luniau o'r ffônau symudol i lenwi'r faner.

2. Sgrôl

Bydd angen dwy hen bensel ar gyfer pob plentyn, darn o bapur maint A4, tâp selo ac amrywiaeth o binnau ysgrifennu.

Gadewch i'r plant 'ysgrifennu' neges ar y papur gan ddefnyddio'r pinnau gwahanol, cyn ei thapio i'r pensiliau (neu dynnu llun). Rholiwch y papur i greu sgrôl a gadewch i'r plant esgus eu bod yn darllen Llyfr y Gyfraith fel y Brenin Joseia.

3. Dilyn y rysâit

Bydd angen copi o'r rysâit sydd ar Atodiad 8 i bawb. Edrychwch ar y rysâit gyda'ch gilydd a gadewch i'r plant ddyfalu beth yw pwrpas y daflen. Wedyn, esboniwch y byddwn yn dilyn y 'rheolau' er mwyn creu rhywbeth blasus iawn i'w fwyta. Cofiwch fod yn ymwybodol o unrhyw alergeddau bwyd sydd gan y plant ac am hylendid bwyd. Ar ôl dilyn y cyfarwyddiadau, gall y plant liwio'r daflen a thynnu llun wyneb hapus neu drist yn y blwch gwag i ddangos a oeddent wedi mwynhau'r profiad o greu a bwyta'r frechdan neu beidio!

4. Cywaith am fywyd Iesu

Bydd angen y lluniau 'Cywaith' o'r Gdd yn barod i'r plant eu lliwio. Byddwch yn defnyddio'r lluniau yn ystod y Stori er mwyn creu cymorthlun gweledol.

AMSER GWEDDI

Gweddi

Dangoswch amrywiaeth o Feiblau i'r plant a thrafodwch gynnwys y Beibl.

❖ Adroddwch y weddi syml hon, gyda'r plant yn ymateb ar ôl pob cymal,

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch Dduw am dy lyfr arbennig

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch Dduw am yr holl storïau sydd yn y Beibl

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch Dduw am y negeseuon sydd yn y Beibl

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch am gael hanes Iesu Grist

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch am roi rheolau inni

"Diolch Dduw am y Beibl."

Diolch Dduw am dy lyfr arbennig

"Diolch Dduw am y Beibl."

❖ Eisteddwch mewn cylch gyda'r plant. Estynnwch Feibl o amgylch y cylch, gyda phob plentyn yn cymryd tro i ddweud gweddi o ddiolch am y Beibl.

Cân

Diolch am y Beibl (addasiad o 'Diolch, diolch Iesu', *Caneuon Ffydd 147*)

Pennill 1: Diolch, diolch Iesu

Pennill 2: Diolch am y Beibl

Pennill 3: Diolch am rhowch enw'r athrawes/athro ysgol Sul, gan esbonio wrth y plant bod yr athrawon yn yr ysgol Sul yn eu helpu i ddeall beth sydd yn y Beibl.

Rhigwm: *Mae'r plant yn ymateb ar ôl pob llinell gyda'r geiriau "yn y Beibl." Anogwch y plant i neidio i fyny ac i lawr, ac i godi eu breichiau wrth weiddi'r ateb!*

'Ymhle cawn hanes Duw yn creu'r byd?

Ymhle cawn hanes ffrindiau Duw?

Ymhle cawn negeseuon gan Dduw?




Ymhle cawn Reolau Duw?

Ymhle cawn hanes Iesu?

Ymhle cawn y neges bod Duw yn ein caru?'




Y Beibl yw llyfr arbennig Duw. Wyt ti'n cofio'r hanesion yma?





Taflen 2 Y Beibl: Stori Fawr Duw

Mae llyfr y Gyfraith ar goll! Sut mae pobl Dduw yn mynd i wybod sut i blesio Duw? Helpa'r Brenin Joseia i ddod o hyd i'r sgrôl.






Taflen 3 Y Beibl: Stori Fawr Duw

Roedd Iesu wedi marw ar y groes i ddangos cymaint y mae Duw yn ein caru!


Gosoda galonnau bach dros y groes i'w gwneud yn hardd - a chofia, does dim angen inni fod yn drist oherwydd daeth Iesu nôl yn fyw!





Oed 6 - 11

Y Beibl: Stori Fawr Duw



Amcanion:

- ❖ i gyflwyno'r Beibl fel Gair Duw
- ❖ i ystyried fod y Beibl yn llawn o negeseuon gan Dduw
- ❖ gweld bod y Beibl yn olrhain hanes pobl Dduw
- ❖ i ystyried fod gan Iesu Grist le canolog yn hanes ymwneud Duw â'i bobl.

Cân i'r Gyfres:

'Myfi yw Goleuni y byd' (Rhif 18 - Y Cyntaf a'r Olaf)

Adnod i'r Gyfres

"Felly, frodyr a chwiorydd, dwi am i chi ddeall fod maddeuant pechodau ar gael i chi oherwydd yr hyn a wnaeth Iesu. Trwyddo ef mae pawb sy'n credu yn cael perthynas iawn gyda Duw" (Actau 13:38 -beibl.net)

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gêm y Mynegai

Bydd angen copi o'r 'Mynegai' (Atodiad 3) ar gyfer pob plentyn, neu gellwch rannu'r grŵp yn barau neu'n grwpiau bychain. Hefyd, amrywiaeth o Feiblau.

Nod y gêm yw bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r ffaith bod dwy brif ran i'r Beibl, yr Hen Destament a'r Testament Newydd, a'i fod yn gasgliad o 66 llyfr.

Dechreuwch drwy edrych ar y Beiblau. Esboniwch fod gan y Beibl ddwy brif ran, sef yr Hen Destament sy'n adrodd hanes pobl Dduw cyn geni Iesu Grist, a'r Testament Newydd sy'n adrodd hanes Iesu Grist a dilynwyd Iesu ar ôl iddo fynd yn ôl i'r nef, at Dduw ei dad. *Dangoswch y tudalennau perthnasol.*

Nesaf, edrychwch yn y mynegai ac esboniwch fod yr Hen Destament yn cynnwys 39 llyfr gwahanol. Gofynnwch i'r plant i ddweud enwau rhai o'r llyfrau.

Nodwch fod yr un peth yn wir am y Testament Newydd, a bod iddo 27 llyfr. Eto, edrychwch am rai o'r enwau.

Rhannwch y copïau o'r 'Mynegai' ac esboniwch reolau'r gêm. Yn syml iawn, byddwch yn gofyn i'r plant ddod o hyd i lyfr penodol a'r cyntaf i ddangos ateb cywir sy'n ennill pwynt.

Dyma rai enghreifftiau, teimlwch yn rhydd i ychwanegu mwy.

Llyfr o'r Hen Destament sy'n dechrau gyda'r llythyren 'L'; Llyfr yn y Testament Newydd sy'n dod ar ôl llyfr Galatiaid; Llyfr olaf y Beibl; Llyfr olaf yr Hen Destament; Dau Lyfr sydd wedi eu henwi ar ôl disgyblion Iesu.

Er mwyn creu mwy o gynnwrf, gallwch eistedd ym mhen arall yr ystafell i'r plant, gydag un aelod o'r tîm yn dod i ddangos yr ateb ichi. Cadwch gofnod o'r pwyntiau a rhwch wobwr fechan i'r tîm buddugol.

Esboniwch wrth y plant y byddwn yn treulio amser dros yr wythnosau nesaf yn darganfod beth sydd mor arbennig am y Beibl, sef 'Gair Duw'.



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

2. 'Hangman'

Dechreuwch drwy edrych ar y Beiblau. Esboniwch fod gan y Beibl ddwy brif ran, sef, yr Hen Destament sy'n adrodd hanes pobl Dduw cyn geni Iesu Grist, a'r Testament Newydd sy'n adrodd hanes Iesu Grist a dilynwyr Iesu ar ôl iddo fynd yn ôl i'r nef, at Dduw ei dad. *Dangoswch y tudalennau perthnasol.*

Chwaraewch gêm *Hangman* gan ddefnyddio enwau llyfrau o'r Beibl yn unig. Byddai'n help cael copïau o'r 'Mynegai' o Atodiad 3 i'r plant gael eu defnyddio yn ystod y gêm.

3. Mae Rheolau'n bwysig!

Chwaraewch gêm fwrdd syml gyda'r plant neu chwaraewch 'Dec Y Llong' (gweler isod). Ar ôl gorffen trafodwch pa mor anodd fyddai chwarae unrhyw gêm heb reolau. Rheolau sy'n golygu bod y gêm yn deg i bawb sy'n cymryd rhan ac yn sicrhau ein bod yn cael hwyl wrth chwarae.

Trafodwch reolau sy'n gyfarwydd i'r plant, e.e. adref, yn yr ysgol, mewn byd chwaraeon, ar y ffyrdd. Trafodwch hefyd y rhesymau am gael rheolau.

Cyflwynwch y syniad bod Duw wedi gosod rheolau, ac mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Beibl. Mae rheolau Duw yn dangos inni sut y dylwn fyw, y ffordd sy'n plesio Duw. Pam, yn ôl y plant, y mae Duw wedi rhoi rheolau i'w bobl?

Yn anffodus, doedd pobl Dduw ddim yn fodlon cadw rheolau Duw bob amser ac mae'r Hen Destament yn llawn o hanesion amdanynt yn mynd eu ffyrdd eu hunain, yn anghofio rheolau Duw a byw i blesio eu hunain.

'Dec y Llong'

Mae'r plant yn sefyll mewn rhes yng nghanol yr ystafell - dyma'r dec canol. I'r chwith mae'r dec isaf, ac i'r dde mae'r dec uchaf. Mae angen un person i fod yn gapten, yn sefyll ar ben y rhes yn wynebu'r 'morwyr' ac yn galw cyfarwyddiadau. Dylai'r 'morwyr' wrando ar y capten, a bydd yr olaf i gyflawni'r gorchwyl allan o'r gêm!

Cyfarwyddiadau:

*dec isaf – pawb i redeg i'r dec isaf
dec uchaf – pawb i redeg i'r dec uchaf
dec canol – pawb i redeg i'r canol
capten yn dod - pawb i saliwio a sefyll yn gwbl llonydd
sgrwbio'r llawr – pawb ar eu pengliniau yn sgrwbio'r llawr
dringo rhaffau - pawb yn gwneud ystum dringo rhaffau*

4. Amser actio

Paratowch restr o hanesion Beiblaidd hawdd i'r plant eu meimio i'r grŵp cyfan neu i'w tîm/thîm. Gosodwch amser penodol, e.e. 20 eiliad ar gyfer pob cystadleuydd.

Dyma rai awgrymiadau am hanesion diweddar: Abraham yn rhifo'r sêr, Iesu'n troi'r dŵr yn win, Daniel yn ffau'r llewod, Iesu'n porthi'r 5000, Pedr yn pregethu ar ddydd y Pentecost, Moses yn croesi'r Môr Coch, Duw yn siarad gyda Samuel, Iesu'n tawelu'r storm. Neu, beth am chwarae gêm 'Pictionary' gan ddefnyddio'r un hanesion?

Atgoffwch y plant mai 'Gair Duw' yw'r Beibl, h.y. Duw sydd wedi ysgrifennu'r Beibl trwy bobl eraill er mwyn inni gael dod i'w adnabod. Wrth inni glywed hanesion pobl yn y Beibl



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

rydym yn dod i sylweddoli sut un yw Duw, sut y dylem ni fyw i'w blesio, a bod Iesu, mab Duw, wedi dod i'r byd am reswm arbennig iawn.

5. Cwis

Paratowch restr o gwestiynau ymlaen llaw gan ddefnyddio'r tudalennau cwis o'r gwerslyfrau.

Rhannwch y plant yn dимоedd neu barau. Bydd angen copi o'r 'Mynegai' (Atodiad 3) a phensel. Gofynnwch y cwestiynau i'r timoedd yn eu tro. Os byddant yn ateb yn gywir, cânt gymryd pensel, ac wedi cau eu llygaid yn dynn, gosod y bensel rhywle ar y Mynegai. Cânt gyfrif sawl llythyren sydd yn y llyfr agosaf at farc y bensel - a dyma yw ei sgôr am y rownd. Parhewch nes bob pob tîm wedi cael cyfle i ateb yr un nifer o gwestiynau a chyfrwch sgôr bob tîm. Rhowch wobwr fechan i'r tîm buddugol. Atgoffwch y plant mai 'Gair Duw' yw'r Beibl, h.y. Duw sydd wedi ysgrifennu'r Beibl trwy bobl eraill er mwyn inni gael dod i'w adnabod. Wrth inni glywed hanesion pobl yn y Beibl rydym yn dod i sylweddoli sut un yw Duw, sut y dylwn ni fyw i'w blesio, a bod Iesu, mab Duw, wedi dod i'r byd am reswm arbennig iawn.

FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Y Beibl – Stori Fawr Duw (2 Timotheus 3:14-17)

Bydd angen dau neu dri llythyr. Hefyd, bydd angen paratoi 'llyfrgell' o flaen llaw i ddangos yr amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cael eu cynnwys yn y Beibl trwy osod y teitlau canlynol ar lyfrau go iawn: (Gludwch nhw ymlaen gyda 'blue-tac' fel nad yw'r llyfrau'n malu!)

'Yn y dechreuad' – hanes Duw'n creu'r byd a phobl;

'Ffrindiau Duw' – pobl fel Abraham a Sara;

'Byw i blesio Duw' – rhoddodd Duw reolau i'w bobl, yn cynnwys y Deg Gorchymyn;

'Caneuon a Barddoniaeth' – roedd pobl Dduw yn hoff o ganu caneuon i foli Duw;

'Negeseuon gan Dduw' – cyn geni Iesu, roedd y proffwydi'n dod â negeseuon gan Dduw i'r bobl;

'Hanes Iesu' – yn y Testament Newydd cawn hanes geni Iesu, bywyd Iesu a marwolaeth Iesu;

'Anturiaethau' – cafodd ffrindiau Iesu lawer o anturiaethau wrth iddynt geisio rhannu'r newyddion da amdano;

'Llythyron' – ysgrifennodd rhai o ffrindiau Iesu llythyron i helpu'r eglwysi i ddeall mwy am Dduw ac am Iesu;

'Geiriau Bendigedig!' – mae llyfr olaf y Beibl yn sôn am y nefoedd a beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Edrychwch ar bob llyfr yn ei dro gan esbonio'n fras beth yw cynnwys y llyfrau. Pwysleisiwch y ffaith fod Duw yn siarad â ni heddiw drwy'r Beibl, dyna pam rydym yn galw'r Beibl yn Air Duw. *Cadwch y llyfrau gyda'i gilydd tan ddiwedd y gyfres – bydd angen rhai ohonynt eto!*

Dangoswch amrywiaeth o llythyron i'r plant. Cyn bod gennym e-byst a ffonau symudol, dyma sut yr oedd pobl yn danfon negeseuon at ei gilydd - dyma'r ffordd hawsaf i ddanfoni neges .

Mae'r Beibl yn cynnwys llythyron hefyd. Dangoswch y llyfr sy'n dangos y categori 'llythyron.'

Trowch at 2 Timotheus yn y Beibl. Beth yw teitl y llyfr hwn? Paul sydd wedi ysgrifennu'r llythyr hwn at ei ffrind, Timotheus. Roedd Paul yn y carchar yn Rhufain oherwydd ei fod yn pregethu am Iesu. Mae'n ysgrifennu'r llythyr hwn at Timotheus i'w annog i ddal ati, i bregethu am Iesu ac i edrych ar ôl y Cristnogion yn yr Eglwys lle'r oedd e'n weinidog - Effesus. Yn y llythyr, mae Paul yn esbonio pam fod y Beibl mor bwysig i Timotheus ac i ninnau hefyd.

Darllenwch yr adnodau yn 2 Timotheus 3:14-17 neu o Atodiad 3, (cyfieithiad beibl.net.) Y geiriau du sy'n dangos yr hyn y mae Paul yn ystyried yw gwerth y Beibl. Treuliwch amser yn trafod geiriau Paul, gan sicrhau fod y plant yn deall eu hystyr. Copiwch y geiriau bras ar ddarnau unigol o bapur, a'u gosod ar ben eich Beibl, un ar y tro gan ddweud:

❖ “Dyma werth y Beibl - mae'n dangos inni ein bod yn cael ein hachub trwy gredu yn Iesu”

❖ “Dyma werth y Beibl - mae'n dysgu yr hyn sy'n wir i ni”

❖ “Dyma werth y Beibl - mae'n cywiro syniadau anghywir”

❖ “Dyma werth y Beibl - mae'n dangos yr hyn a wnawn o'i le”

❖ “Dyma werth y Beibl - mae'n ein dysgu sut i fyw yn iawn”

Efallai yr hoffech weddio gyda'r plant cyn symud ymlaen, gan ddiolch i Dduw am Ei air a gofyn am gymorth inni gael gweld gwerth y Beibl heddiw.

2. Dechrau'r Stori – Y Da a'r Drwg a'r Gyfraith (Genesis 1-3; Exodus 20)

Bydd angen y Gdd sy'n cyd-fynd â'r gwrslyfr a gliniadur i'w arddangos. Y ddau lyfr o'r llyfrgell, 'Byw i blesio Duw' a 'Negeseuon gan Dduw.'

Gwylwch hanes y Creu a'r Cwmp ar y Gdd neu darllenwch yr hanes o un o'r Beiblau plant. Trafodwch ganlyniadau pechod Adda ac Efa. Bu'n rhaid iddynt adael gardd Eden a wynebu marwolaeth am eu bod wedi pechu. Roedd y berthynas arbennig a oedd ganddynt â Duw wedi ei ddifetha' am eu bod wedi dewis bod yn anufudd.

Dangoswch y llyfr a baratowyd ar gyfer y 'llyfrgell' yr wythnos ddiwethaf gyda'r teitl 'Byw i blesio Duw' arno. Esboniwch fod Duw ar ôl hyn wedi rhoi rheolau i'w bobl er mwyn eu helpu i fyw y ffordd gorau posibl. Efallai bydd rhai o'r plant yn cofio hanes Moses yn cael y 10 Gorchymyn.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Atgoffwch y plant o'r gemau a chwaraewyd ar gychwyn y sesiwn ac am y rhesymau dros gael rheolau. Roedd Duw yn gwybod bod angen rheolau ar ei bobl er mwyn iddynt fyw yn hapus ac yn deg. Addawodd Duw y byddai'n edrych ar eu holau pe byddent yn ceisio gwranddo arno a chadw'r rheolau.

Ond, yn anffodus, doedd pobl Dduw ddim yn gallu cadw'r rheolau, ac yn aml, byddent yn anghofio am Dduw yn llwyr! Mae llyfrau'r Hen Destament yn llawn o hanesion amdanynt yn torri'r rheolau. Danfonodd Duw negeseuon iddynt trwy'r proffwydi i'w hatgoffa, ac am gyfnod byr roeddent yn ufudd. Ond ar ôl ychydig o amser, troi'n ôl a wnaethant, yn gwneud yr hyn a ddymunent ei wneud unwaith eto. Doedd pobl Dduw ddim yn gallu cadw'r rheolau'n berffaith am fod pechod yn eu calonnau.

Beth oedd Duw am wneud i gael gwared â'r pechod yng nghalonau'r bobl? Cawn yr ateb y tro nesaf wrth inni edrych ar hanes Iesu Grist yn y Testament Newydd.

3. Y Bennod Bwysicaf - hanes Iesu, Mab Duw

Bydd angen copi o'r daflen waith 'Y Bennod Bwysicaf' ar gyfer pob plentyn, pensiliau a phinnau ffelt. Hefyd, casgliad o Feiblau plant a chopïau o Atodiad 4 - gweler isod.

Cwblhewch y daflen gyda'ch gilydd. Anogwch y plant i chwilio yn y Beiblau plant am syniadau i'w lluniau. Cewch ateb y cwestiwn ar waelod y daflen ar ôl cymhwyso (isod).

Cymhwyso: Beth yw'r adnod?

Cwblhewch bôs yr adnod sydd ar y daflen.

"Felly, frodyr a chwiorydd, dwi am i chi ddeall fod maddeuant pechodau ar gael i chi oherwydd yr hyn a wnaeth Iesu. Trwyddo ef mae pawb sy'n credu yn cael perthynas iawn gyda Duw" (Actau 13:38 - beibl.net).

Darllenwch yr adnod ac esbonio ystyr geiriau Paul. Y ddau beth pwysicaf i'w nodi yw:

1. Bod maddeuant pechodau ar gael oherwydd yr hyn a wnaeth Iesu;
2. Mae pawb sy'n credu yn cael perthynas iawn gyda Duw.

Atgoffwch y plant fod y berthynas arbennig a fodolai rhwng Duw ac Adda ac Efa wedi cael ei difetha'n llwyr oherwydd eu hanufudd-dod. Pan fo person yn credu yn Iesu mae'r berthynas yn cael ei hadfer.

Mae 'credu' yn golygu mwy na dim ond credu rhyw ffeithiau yn y pen, mae'n golygu ymddiried yn Iesu – ymddiried mai dim ond ef sy'n gallu maddau ein pechodau a'n gwneud yn iawn gyda Duw.

Dysgu'r adnod

Bydd angen copi o Atodiad 4 ar gyfer pob tîm/pâr wedi'i thorri'n darnau fel jig-so.

Rhannwch y plant yn dimoedd a gosodwch y darnau jig-so ym mhen arall yr ystafell. Nod y gêm yw bod aelodau'r tîm yn cymryd eu tro i nôl un darn o'r jig-so (un ar y tro), a'i osod at ei gilydd a dysgu'r adnod. Rhowch gyfle i bob tîm adrodd o flaen y lleill.

Gorffen drwy gwblhau'r daflen waith.



SYNIADAU CREFFT

1. Nodyn llyfr 'Help llaw i ddeall Gair Duw'



Bydd angen darn o gerdyn i bawb, sy'n ddigon mawr i'r plant wneud amlinelliad o law arno; Beiblau; pinnau ffelt; y geiriau 'Clywed, Darllen, Astudio, Cofio, Myfyrio' ar ddarn o bapur.

Gofynnwch i'r plant dorri siâp un llaw allan. Edrychwch am yr adnodau canlynol yn eich Beiblau a'u trafod. Gofynnwch i'r plant benderfynu pa un o'r geiriau (*Clywed, Darllen, Astudio, Cofio, Myfyrio*) sydd yn yr adnod ac i gopïo'r gair ar un o'r bysedd.

Rhufeiniaid 10:17; Datguddiad 1:3a; Actau 17:11; Salm 119:11,13; Salm 119:15.

Ar ôl gosod y pum gair caiff y plant addurno'r llaw. Anogwch y plant i gadw'r nodyn llyfr yn eu Beiblau adref a'u defnyddio yn gymorth wrth ddarllen eu Beiblau.

2. Clawr ar gyfer Beibl

Bydd angen amrywiaeth o Feiblau Plant, darn o bapur maint A4 i bawb, pensiliau a phinnau ffelt.

Edrychwch ar gloriau'r Beiblau gyda'r plant a'u trafod. Pa luniau sydd arnynt? Pa eiriau? Gofynnwch i'r plant i gynllunio clawr ar gyfer Beibl Plant newydd sbon.

Trafodwch y gwahaniaethau rhwng y Beiblau plant a'r Beibl Cymraeg Newydd - yr iaith, lluniau, dim ond hanesion ayyb. Pwysleiswch fod y Beiblau Plant yn gymorth inni ddod i wybod hanesion y Beibl a'i bod hi'n bwysig inni ddarllen y Beibl hefyd. Byddai'n syniad da cael

llyfrynnau ar gyfer plant er mwyn i blant ddarllen y Beibl yn ddyddiol. Mae'r rhain ar gael o siopau llyfrau Cristnogol neu oddi ar y we. Ewch i safle 'Scripture Union' neu cwr.org.uk

3. Croes dal yr Haul



Bydd angen bagiau plastig lliwgar, darnau o gerdyn i greu ffrâm, styffylwr, tâp selo, edafedd/rhuban, 2 haearn smwddio, papur 'gwrth-saim.'

Creu cefndir: Rhowch ddarn o papur 'gwrth-saim' i bawb. Dewiswch ddarnau o blastig lliwiau golau a'u gosod ar y papur fel eu bod yn gor-lapio ei gilydd mewn siâp petryal. Gosodwch ddarn o bapur 'gwrth-saim' dros y cwbl a'i smwddio. Cadwch yr haearn ar wres canolig. Byddai'n syniad cael oedolion yng ngofal y ddau haearn drwy'r amser. Dylai'r darnau o blastig llynu at ei gilydd wrth i wres yr haearn eu toddi.

Creu croes: Gosodwch ddarnau o blastig lliw tywyll ar y cefndir mewn siâp croes. Gosodwch ddarn o bapur 'gwrth-saim' dros y cwbl a'i smwddio.

Creu ffrâm: Torrwch ddarnau o gerdyn i ffitio'r llun a'u styffylu yn eu lle. Tapiwch ddarn o edafedd/rhuban ar y ffrâm er mwyn hongian eich llun.

Bydd y lluniau yn ddeniadol iawn wrth hongian o flaen ffenestr i ddal y golau.



DRAMA

1. Noson yr 'Oscars' - cymeriadau o'r Hen Destament neu bobl a fu'n cyfarfod â Iesu

Bydd angen Beiblau Plant, meicroffonau (rholiau cerdyn?), dillad gwisgo i fyny – dewisol.

Bydd y plant yn gweithio mewn paru fel cymeriad Beiblaidd a chyfwelydd. Dewiswch gymeriadau o hanesion Beiblaidd (o flaen llaw) a nodwch y tudalennau perthnasol o'r llyfrau Beiblaidd.

Dyma rai awgrymiadau: Adda neu Efa; Noa; Moses; Ruth; Gideon; Samuel; Daniel; Y Mab Afradlon; Mair, mam Iesu; Pedr.

Rhowch amser i'r paru ddarllen yr hanes a'i drafod. Gofynnwch iddynt feddwl am 3 cwestiwn i'r cyfwelydd eu holi i'r cymeriad ac am atebion.

Rhowch gyfle i bob pâr roi eu cyflwyniad.

2. Chwarae rôl – Dewis ffordd Duw

1 Gofynnwch i'r plant ffurfio grwpiau bychain (hyd at 5 ym mhob grŵp).

2 Esboniwch eich bod am i bob grŵp greu sgets i ddangos yr hyn sy'n digwydd pan mae pobl yn torri rheolau (e.e. gor-yrru, siarad mewn arholiad a.y.b.).

3 Rhowch tua 5 munud i'r grŵp i baratoi. Cofiwch grwydro o amgylch rhag ofn bod angen cymorth.

4 Gwahoddwch pob grŵp yn eu tro i gyflwyno eu sgets i'r lleill. Cofiwch nodi ganlyniad torri'r 'rheol' bob tro.

3. Ysgrifennu rap neu gerdd am hanes 'y Creu' a'r 'Cwymp' neu am y 10 Gorchymyn

Treuliwch amser yn gyntaf yn trafod yr hanes o'ch dewis i benderfynu beth yw prif bwyntiau'r hanes.

GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Cwis – Gweler Cyflwyno'r Thema.

Dysgu'r adnod: Actau 13:38

Bydd angen copi o Atodiad 4 ar gyfer pob tîm/pâr wedi'i thorri'n ddarnau fel jig-so.

Rhannwch y plant yn ddimoedd a gosodwch y darnau jig-so ym mhen arall yr ystafell. Nod y gêm yw cael aelodau'r tîm i gymryd eu tro i nôl un darn o'r jig-so (un ar y tro), a'u gosod at ei gilydd, a'i ddysgu. Rhowch gyfle i bob tîm adrodd o flaen y lleill.

Gêm

Tip - 'Mae'n ddrwg gen i'

Bydd angen cardiau bach gyda'r gair "sori" a chardiau bach gyda'r gair "maddeuwyd" wedi'u hysgrifennu arnynt.

Dewiswch un o'r plant i fod yn "ddaliwr." Mae'r daliwr yn dal y cardiau "sori" a chithau'n dal y cardiau "maddeuwyd." Mae'r plant eraill yn rhedeg o gwmpas (neu sgipio/hercian) tra bod y daliwr yn ceisio eu dal. Os byddant yn cael eu dal maen nhw'n cael cerdyn "sori" gan y daliwr. Maen nhw'n dod â'r cerdyn atoch a'i gyfnewid am gerdyn "maddeuwyd." Chwaraewch am gyfnod penodol cyn newid y daliwr. Ar y diwedd, cyfrwch pwy sydd gyda'r nifer fwyaf o gardiau "maddeuwyd."

Trafodwch 'bod yn sori' a 'derbyn maddeuant', gan ffrindiau, aelodau o'r teulu, pobl eraill.

Trafodwch sut yr ydym yn derbyn maddeuant gan Dduw, yr angen i gyffesu ein pechodau i Dduw ac i edifarhau. Atgoffwch y plant fod Iesu wedi marw drosom ar y groes er mwyn inni gael profi maddeuant Duw.

Taflenni Gwaith




GWEDDIAU

Gweddi gydag ymateb

Darllenwch y weddi ganlynol a gofynnwch i'r plant i wrando'n ofalus ac i adrodd y llinell 'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,' pan fyddwch yn oedi.

O Dduw, diolch am dy lyfr arbennig, Y Beibl,
'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,
Diolch am yr hanesion sydd ynddo,
'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,
Diolch am dy reolau
sy'n dangos inni sut i fyw i dy blesio,
'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,
Diolch am hanes Iesu Grist
ac am iddo ddod i'r byd i faddau ein pechodau,
'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,
Diolch fod y Beibl ar gael yn Gymraeg,
'Helpa ni i ddarllen ac i ddeall dy Air,
Amen.

Tusw o weddïau



Bydd angen darnau o bapur lliwgar siâp petalau, glud, a darn o bapur gyda llun coesyn gwyrdd a chanol melyn/ oren a'r teitl 'Y mae Gair Duw yn fyw a grymus'. Efallai bydd angen mwy nag un coesyn, yn dibynnu ar faint y grŵp a faint o flodau y byddwch yn eu ffurfio.

Trowch at Hebraid 4:12 gan ddarllen y cymal cyntaf i'r plant. Mae'r adnod yn dweud wrthym fod y Beibl yn wahanol i lyfrau eraill oherwydd mae'n fyw ac yn rymus! Gofynnwch i'r plant am

eu hawgrymiadau am ystyr y cymal. Esboniwch yn syml fod y Beibl yn gallu ein newid wrth inni ei ddarllen ac wrth i'r Ysbryd Glân ein helpu i'w ddeall. Wrth inni ddysgu mwy am Dduw ac am Iesu mae'n meddyliau a'n calonnau yn cael eu newid i fod yn debyg i feddwl a chalon Iesu. Dyna pam y mae'r awdur yn cynnig bod Gair Duw yn fyw.

Rhowch betal/au i'r plant a gofynnwch iddynt feddwl am yr hyn a ddysgwyd am Air Duw heddiw, neu o'r blaen, ac i ysgrifennu eu syniadau ar y petalau. Gludwch y petalau ar ben y coesyn/coesau i greu blodyn/blodau. Arddangoswch y darlun gorffenedig. Dewiswch rai o'r petalau yn destun i weddïau. Efallai y bydd y plant yn hoffi darllen eu petalau mewn gweddi syml o ddiolch i Dduw am ei Air.

AMSERLEN

Wythnos 1:

Y Beibl –
Cyflwyno'r Thema 1 neu 2;
Hanes 1; Crefft 1; Drama 1;

Wythnos 2:


Hanes y Creu a Rheolau Duw –
Cyflwyno'r Thema 3; Hanes 2;
Crefft 2; Drama 2;

Wythnos 3:

Hanes Iesu Grist –
Cyflwyno'r Thema 4 neu 5;
Hanes 3; Crefft 3; Drama 3.



Beth yw'r Beibl?



Sawl Testament sydd yna?


Sawl llyfr sydd yn yr Hen Testament?

Sawl llyfr sydd yn y Testament Newydd?

Pa lyfr yw'r cyntaf?

Pa lyfr yw'r olaf?

Llenwch y gist gyda lluniau o'ch trysorau.



*Trowch i Salm 119:72 i ddarganfod beth oedd Dafydd yn ei gyfri'n drysor!
Copïwch yr adnod yn eich llaw ysgrifenedig orau.*



Pa rhai o'r rhain yw rheolau Duw? Lliwiwch nhw'n binc.

Peidiwch
â dwyn

Brws iwch
eich dannedd

Peidiwch
â lladd

Carwch
Dduw

Peidiwch â
phigo'ch
trwyn

Cadwch eich
ystafell yn
daclus

Rhoddodd Duw reolau i bobl Israel i'w cadw. Roedd am i'w bobl gael bywydau hapus a diogel. Roedd am iddynt fod yn ufudd. OND, nid oedd pobl Dduw yn ei chael hi'n hawdd i gadw'r Gorchmynion. I ddweud y gwir, roedd hi'n amhosibl!



Cristion ydy person sy'n cydnabod nad yw'n medru cadw rheolau Duw ac sydd wedi gofyn i Iesu i faddau iddo(i). Mae gan bob Cristion gymorth arbennig i gadw rheolau Duw. Ydych chi'n cofio pwy sy'n ein helpu?

ry dyrbsy nâlg



Y Bennod Bwysicaf

Tynnwch luniau addas ymhob ffrâm

Geni'r Iesu

Bywyd Iesu

Marwolaeth Iesu

Esgyniad Iesu

Beth ddywedodd yr apostol Paul am Iesu? Llenwch y bylchau gyda'r llythrennau a neu e:
"F_lly, frodyr _ chwiorydd, dw i _m i chi dd__ll fod m_dd_u_nt
p_chod-u _r g__l i chi o _chos b_th wn__th l_su. Trwyddo
f_ m__ p_wb sy'n cr_du yn c__l p_rthyn_s i_wn gyd_
Duw." Actau 13:38 beibl.net

Pam ddaeth Iesu i'r byd o'r nef?

- I cymryd SOCB fy mhechod
- I fod yn BEARTH



- I ddangos bod Duw yn ein URAC
- I DDFAAU fy mhechodau



Taflen 7 Y Beibl: Stori Fawr Duw

Roedd y Brenin Dafydd yn ystyried bod Geiriau Duw yn fwy gwerthfawr nag aur! Salm 119:72

Dilynwch y cyfarwyddiadau i weld pa un o'r penodau sy'n cuddio'r 'trysor.'


Cyfarwyddiadau

- 2 i'r de, 1 i'r gorllewin
- 2 i'r gorllewin, 2 i'r de
- 3 i'r gorllewin, 2 i'r gogledd
- 2 i'r dwyrain, 2 i'r gogledd
- 4 i'r gorllewin, 3 i'r de
- 4 i'r dwyrain, 1 i'r gogledd
- 2 i'r gogledd, 2 i'r dwyrain
- 1 i'r de, 2 i'r dwyrain

Pa rif sydd yno?

Dyma'r bennod o lyfr

Diarhebbion y cewch hyd i'r 'trysor'!



Y mae Doeth yn gwneud ei dad yn (ad. 1) Nid oes o drysorau a gaed mewn (ad. 2)

Y mae llaw Yn dwyn (ad. 4) Y mae'r Yn derbyn (ad. 8)

Y mae yn cuddio pob (ad. 12) Ffôl yw'r un sy'n enllibio (ad. 18)

Dyma rai o'r 'Geiriau' yr oedd Dafydd yn ystyried eu fod yn well nag aur - beth yw eich barn?



Y Beibl Stori Fawr Duw

D M A E D Y A I R P Y N L L U S E R N I R M T R A E D A C Y N O L E C U N I I M
 L A L W Y B R N H F P S N T L Q H U J D E Y E K U N W P R K N R N R D V N X D O V
 O N T V J P B I E F F E S I A I D N E E N U Z G Y Z C A R B L Q A G A N U U O V
 J V U G O E L S I K I I N Y M S O P Z Z D I A I N I E F U H R M N H G H M D Z O
 O O C O U E I R W I S B O Y R A M R X G G F X U D A B N L A S E D H E C O V J I V
 J Z D C P D N H O Q L D G Y E W F F A Z D C M H G W D U T S X X H J C A Y Q X A
 B E Y I G T D L J N L A A L H E B R E A I D T Q C V H D H P E D P Y X C Q K B H
 G Z A X A C H I Y E D M I L L C W E F G C K V V N Z D E V B V K R O S B X H J N
 M I A B Z I L C A Y H H G X F P D E B N A Q K N M F Y I A Z T X O S S N F Q R Y
 D I G G F S N R M D P J I F Z J J K A T T P H N A G C Y L I E H F C D T R E T S
 A V U V D K U O Z M W D O A P E F X S W I C K E O H U P Z D U A N O W B S A Q S
 L F A U P Y S G L D V I N K B A J E T A J G P T O A W M C X A C O W M D Y I F W O
 I S X C B O J S A A L B J S V D Q H V Z T O P H I D P B J U C W O D Y W Y G C Y K
 B H R E B S I S X G S G O S H T P J E A J M Y Q W T H Z M X O B W F Q D T J Z C
 I M O W Q T A R V P R E S E O W W T D S W C D Y R H U V B Y G E Q U E C C D I I
 M T C J T B D P Z T D V H E A G X Y W J T M A T H E W S X Q I N Y U I B T F V Q
 Y F N W Y J L W R H V V X T O M Q H G D V N J M V R U V I W F A S D C R D Z N V
 Q U R D V B E Q J T T L Q Z D I H L Q K Q U R J M F V U A Q C T O E T T Y G L I
 K K Q D D X D A Q G V O H W H M U R G V G D T X T S E S I T B U Z A D R G A X D
 N L Y K G D N V O R V S Y R P E H N R L I A H F I Q B J A U R U W Q W Y V N M P Q
 G F C L Y X T J W E A P A K Q A K S L T A Q V M N J H U M P B H F L R H C J O C
 N S V M C G S W F J C O T B N C B Q G P K B T X H K G K H K P L B Q O Z Q O Z H
 Y Z L S E N Y F D O H W B E I J C Y Y F N O L W J A N P R T J B Q G F W K R A M
 P A J L L V H U P M D A X X L X D O L G H U Z B S N D W W K R S E E K U H B H V
 I U Y N Y N Q L F F R I U X K X B G A L A T I A I D S Q Q Y Y K C L A M V K S W
 C O R I N T H I A I D S W H P K J J W D S U J U A T I M O T H E U S R S Z T V P
 U H K M L P H V F H F Y M C I G Q N L T V B W T G T C V X W T O V B Q V N U H P
 J Z U A H Z X Y P A M J R Y P R C V B I D X B U X O T O F M P O C W K M L I V A
 P T C J W X Y F R J P S U L N W Y J P E T G N D X X M T L T J E L K L E A G C K
 F F W H H G L Z I X H A R T E F P S S Y X S E G C W T R Q O K Y T I I G E N I A
 N K V E F D Q C R J M C H W X D K W F Y I L R A T P H F J F S F L X O I B O A W
 Y O Y H F F Y W B L I U N P L X W L G O C U V N M Y H L Z Y Z I J E P V S V Y Z
 A W A Q S C T I G T E F H T Y S P S Y M J S H K V V P C F J G C Q A O W H D H Z G
 H Q U N M M J P K P J V G T G M N K K Y N M U Z V E P O Q Q E E Q Q I E P Z T U X
 Q E S A Z K H P L Q F N B X F F B Y I N M X B S D P A Q W X V L Z G D B E W S Q
 V B A K Q J Z A Q K E W H F S N Q H N K M R Q H Z O Y V K V Y L Y F Z F I G P O
 B X D J I H V H Y L P J Q T U V P F O D E I X I Z V U S C C L M O M E A G B B Z
 S N E E Q N C C G Y I D C S I Z Z L V S C M J K M E A N Y N Y E H Y L N Y B J J
 S A O O A Q L B C Z D A M A L E E U W M M I S J Y V I O A N S B X U J S J K Y A
 N Y I X W G A P B C G S P G T S H C I I S E H Z J Q Y C A X T A G N B T N M D B

ACTAU
 COLOSIAID
 CORINTHIAID
 DATGUDDIAD
 EFFESIAID
 GALATIAID
 HEBREAID

IAGO
 IOAN
 JWDAS
 LLYTHYR
 LUC
 MARC
 MATHEW

PEDR
 PHILEMON
 PHILIPIAID
 RHUFEINIAID
 THESALONIAID
 TIMOTHEUS
 TITUS

Mae'r llythrennau sydd ar ôl yn ffurfio adnod o'r Beibl - fedrwch chi ddod o hyd iddi?

Salm 119:105



Amcanion:

- ❖ i gyflwyno'r Beibl fel y Llyfr sy'n adrodd 'hanes Duw';
- ❖ i edrych ar 'hanes Duw' mewn tair rhan - y gorffennol, y presennol a'r dyfodol;
- ❖ i weld bod cynllun Duw yn cael ei wireddu drwy'r hanes cyfan;
- ❖ i weld marwolaeth Iesu fel trobwynt hanes y byd.

Wythnos 1

Yr wythnos hon byddwn yn ystyried hanes Duw yn creu'r byd, dyfodiad pechod i'r byd a'r canlyniadau, hanes cychwyn cenedl Israel a pherthynas y genedl honno â Duw. Bydd llawer o enwau cymeriadau'r Beibl yn gyfarwydd i'r bobl ifanc, yn enwedig os ydynt wedi bod yn yr Ysgol Sul dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ond mae'r gyfres hon yn rhoi cyfle inni gyflwyno'r darlun cyfan iddynt a byddwn yn ceisio dangos mai nid llyfr sy'n llawn o hanesion pobl unigol ydy'r Beibl. Yn hytrach, mae'r unigolion a drafodwyd eisoes yn gymeriadau mewn stori lawnach am bobl Dduw a'i ymwneud â hwy. Yn nhudalennau'r Hen Destament cawn gyfarfod â Duw sanctaidd a chyfiawn a phobl wan a phechadurus. Cawn ryfeddu at amynedd a thrugaredd Duw wrth bobl mor anniolchgar ac anufudd. Hefyd, cawn gliwiau trwy'r hanes bod gan Dduw gynllun a fydd yn delio â phechod unwaith ac am byth, a hynny trwy berson go arbennig. Mae llawer o hanesion yr Hen Destament a defodau'r genedl yn gysgodion o'r hyn y bydd y Gwardwr yn ei gyflawni.

Gobeithiwn gael gwell dealltwriaeth o waith yr Arglwydd Iesu trwy'r gyfres hon wrth inni ystyried y darlun mawr gyda'r bobl ifanc.

Cyflwyno'r Thema:

1. Dyma fy Hanes

Rhowch dudalen o bapur maint A4 i bawb a gwahodd y bobl ifanc i greu llinyn amser o'u

bywydau. Efallai yr hoffech ddangos esiamplau iddynt cyn cychwyn neu greu llinyn amser o'ch bywyd eich hun.

Anogwch y plant i feddwl am:

- ❖ bobl sydd wedi dylanwadu arnynt, e.e. aelodau o'r teulu, ffrindiau, athrawon(!), 'sêr';
- ❖ llefydd penodol sydd o bwys iddynt, e.e. ysgol, cartref, cartref teulu, gwyliau;
- ❖ digwyddiadau arbennig, e.e. gêm gyntaf/ gorau, cyngerdd, bod yn yr ysbyty;
- ❖ rhywbeth maen nhw'n hoffi gwneud ar hyn o bryd.

Gallant dynnu lluniau neu ysgrifennu am y digwyddiadau allweddol yn eu hanes.

Rhowch 5 munud i'r grŵp i gwblhau'r dasg, cyn treulio ychydig o amser yn trafod eu gwaith. Gofynnwch i'r bobl ifanc os ydynt wedi ystyried beth hoffent wneud yn y dyfodol. Rhowch gyfle iddynt dynnu dau neu dri llun o'u dyfodol, ar yr un ochr â'r llinyn amser neu ar gefn y papur.

Dangoswch Feibl i'r grŵp ac esboniwch fod llinyn amser Duw ynddo.

Mae'r Beibl yn cyflwyno hanes Duw mewn tair rhan:

1. mae'n cynnwys hanes, h.y. yr hyn a wnaeth Duw - gallwch bwyntio at llinyn amser un o'r bobl ifanc i ddangos yr 'hanes' sydd yno;



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

2. mae'n cynnwys hanes yr hyn y mae Duw yn ei wneud heddiw ym mywydau Cristnogion - pwyntiwch at luniau sy'n dangos rhywun heddiw;

3. mae'n cynnwys hanes Duw a phobl Dduw yn y dyfodol - pwyntiwch at luniau 'y dyfodol'. Efallai yr hoffech egluro mai amcan y gyfres hon yw cyflwyno hanes y Beibl cyfan yn hytrach na rhan o'r stori fel y gwnawn fel arfer.

2. Hoff ffilmiau

Rhowch gopi o Atodiad 5 i bawb a gofynnwch i'r bobl ifanc i'w lenwi (mae'r Atodiad yn trafod hoff ffilmiau). Efallai yr hoffech annog y bobl ifanc i ddewis ffilm addas!

Neu, efallai yr hoffech ddangos glip o'ch hoff ffilm i'r grŵp.

Trafodwch ddewisiadau'r grŵp gan danlinellu'r ffaith bod y ffilmiau y maen nhw wedi'u dewis yn storïau da - yn eu tyb hwy beth bynnag!

Dangoswch Feibl i'r grŵp ac esboniwch fod y Beibl yn cynnwys stori Duw. I ddweud y gwir mae llawer o ffilmiau wedi'u seilio ar hanesion Beiblaidd. Yn y gyfres hon byddwn yn ceisio gweld y stori gyfan yn hytrach na rhan o'r stori fel y gwnawn fel arfer.

Mae'r Beibl yn cyflwyno hanes Duw mewn tair rhan:

1. mae'n cynnwys hanes yr hyn a wnaeth Duw;

2. mae'n cynnwys hanes yr hyn y mae Duw yn ei wneud heddiw ym mywydau Cristnogion;

3. mae'n cynnwys hanes Duw a phobl Dduw yn y dyfodol. Heddiw, byddwn yn ystyried yr hyn a wnaeth Duw yn y gorffennol.

Darllen a deall y Beibl (Genesis 3)

❖ Creu llinyn amser yr Hen Destament

Bydd angen copi o Atodiad 6, Beiblau, Beiblau plant, papur maint A5, pensiliau/pinnau ffelt. Rholyng o bapur leinin (lining paper) a glud.

Rhannwch y cyfeiriadau rhwng y grŵp. Nod y dasg hon yw cael y grŵp i greu llinyn amser o'r Hen Destament trwy dynnu lluniau o hanesion adnabyddus a'u gosod yn nhrefn amser.

Ar ôl gosod y lluniau mewn trefn a'u gludo ar y papur leinin rhowch sylwadau er mwyn egluro arwyddocâd pob person /digwyddiad. Cadwch y llinyn amser ar gyfer yr wythnos nesaf.

❖ Chwarae gêm 'Creu Creadur'

Bydd angen darn o bapur a phensel ar gyfer pob aelod o'r grŵp. Yn gyntaf mae'n rhaid i bawb dynnu llun pen a gwddw rhyw greadur, gwir neu ddychmygol, a phlygu'r papur drosodd fel bod y llun o'r golwg (rhaid plygu'r papur fel mai dim ond y llun sy'n cael ei guddio - mae angen defnyddio gweddill y papur i weddill y llun). Mae'r papurau'n cael eu pasio i'r person nesaf, bydd ef/hi yn gyfrifol am dynnu llun corff a breichiau'r anifail. Eto, mae'r papurau yn cael eu plygu fel bod y rhan hon o'r llun o'r golwg. Mae'r papurau yn cael eu pasio ymlaen unwaith eto ac mae pawb yn tynnu llun coesau a thraed i'r creadur. Unwaith eto, mae'r papurau'n cael eu plygu a'u pasio ymlaen. Yn olaf, mae angen i bawb agor y papur sydd ganddynt a rhoi enw i'r creadur sydd o'i blaen.

Edrychwch ar y creaduriaid a cheisio dewis y gorau/ rhyfeddaf/ gwirionaf.

❖ Trowch i Genesis 2:19,20. Dyma Adda yn dewis enwau i'r holl greaduriaid – fel ninnau'n dewis enwau i'n creaduriaid ni!

Darllenwch Genesis 3:1-13. Dyma Adda ac Efa yn gwneud dewis arall - y tro yma maen nhw'n dewis bod yn anufudd i Dduw. Cyn hyn, roedd Adda ac Efa mewn perthynas agos â Duw, yn byw a gweithio yng Ngardd Eden ac yn mwynhau cwmni Duw. Ond trwy eu hanufudd-dod mae



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

pechod yn dod i'w calonnau ac i'r byd. Mae'r berthynas rhwng Duw ac Adda ac Efa yn gorfod newid oherwydd nad yw Duw'n gallu cael perthynas agos gyda phobl sydd â phechod yn eu bywydau.

❖ Edrychwch ar lun Moses yn y llinyn amser a rhowch yr esboniad canlynol: rhoddodd Duw'r Deg Gorchymyn i Moses ac i bobl Israel er mwyn iddynt ddeall beth oedd yn iawn yng ngolwg Duw a beth oedd yn bechod. Dyma safon Duw. Wrth gwrs, doedd neb yn gallu cadw rheolau Duw yn berffaith - ac roedd Duw yn gwybod y byddai hyn yn wir. Felly, rhoddodd Duw gyfle i'w bobl i wneud yn iawn am eu pechodau trwy system o aberthau ac offrymau. Un aberth bwysig oedd Aberth y Cymod' pan fyddai un gafr yn cael ei haberthu dros bechodau'r genedl a gafr arall yn cael ei danfon allan o'r gwerysll yn 'cludo' pechodau'r bobl ar ei chefn. *Cewch fwy o wybodaeth am ddefodau aberthu'r Israeliaid yn Y Beibl i Blant mewn 365 o storïau, rhif 68.*

❖ Felly, drwy'r Hen Destament cawn hanes pobl Dduw yn ymdrechu i gadw rheolau Duw, yn methu, yn troi cefn ar Dduw, a hyd yn oed yn dilyn crefyddau eraill!

Profodd y genedl **amseroedd da** – e.e. pan oedd Dafydd yn Frenin a cheisiodd arwain y bobl ffordd Dduw.

Profodd y genedl **amseroedd anodd** iawn hefyd, e.e. pan gymerwyd rhan helaeth o boblogaeth Israel i fyw mewn caethglud ym Mabilon yn amser Daniel.

Danfonodd Duw **farnwyr**, fel Gideon, a **phroffwydi**, fel Jona, i geisio rhybuddio'r bobl. Daethant â neges gan Dduw eu bod yn byw bywydau yn groes i ewyllys Duw. Weithiau, gwrandawodd y bobl a throi'n ôl i ddilyn rheolau Duw. Yn aml, anwybyddu'r negeseuon a wnaethant gan barhau yn eu pechod. Sawl tro, bu'n rhaid i Dduw eu cosbi'n llym cyn iddynt weld a chydabod eu pechodau a throi'n ôl ato.

❖ Mae'r Hen Destament yn gorffen gyda geiriau'r proffwydi Sechareia a Malachi. *Trowch i ddiwedd yr Hen Destament at lyfr Sechareia.* Mae Sechareia yn ceisio annog pobl Dduw i ymddiried yn addewidion Duw ac i'w roi yn gyntaf yn eu bywydau. Mae'n cyflwyno dau ddarlun pwysig iddynt - darlun brenin a darlun bugail. Mae Sechareia yn proffwydo am berson a fydd yn dod rhywbryd yn y dyfodol i arwain pobl Dduw, yn frenin arnynt ac yn fugail drostynt. Mae'n cyfeirio at ddyfodiad Iesu Grist. Dyma'r person y mae Duw'n ei ddanfôn i ddelio â phechod, **unwaith ac am byth**, ac fe gawn y bennod hon o stori Duw yn ystod y sesiwn nesaf.

Gweddïau

Mae hanes Adda ac Efa yn bwyta'r ffrwyth yng ngardd Eden yn esbonio sut y daeth pechod i'r byd, ac oherwydd hynny, pob math o bethau drwg a hyll. Gofynnwch i'r plant i feddwl am sut le oedd y byd cyn dyfodiad 'pechod'. Er fod pechod o'n cwmpas ymhob man mae 'na lawer o bethau hardd ac anhygoel i'w gweld hefyd. Gofynnwch i'r grŵp i feddwl am dri pheth hardd sydd i'w gweld yn y byd o'n cwmpas ac i ganmol Duw amdanynt.

Yna, meddyliwch fel grŵp am dri pheth drwg sy'n digwydd yn y byd a gweddïwch amdanynt a'r bobl sy'n dioddef o'u herwydd. Efallai bydd rhai aelodau o'r grŵp yn gyfforddus i weddio ar goedd, neu gallwch dreulio ychydig amser mewn gweddi dawel.

Gweithgarwch ychwanegol:

Beth am chwarae un o'r gemau o'r Adran 6-11 oed - Cyflwyno'r Thema?

1. **Gêm y Mynegai**
2. **'Hangman'**



Wythnos 2

Yr wythnos hon byddwn yn ceisio gweld y rôl hanfodol bwysig sydd gan yr Arglwydd Iesu Grist i'w chwarae yn stori fawr Duw. Ar ddiwedd gwrs yr wythnos ddiwethaf bum yn cyfeirio at neges y proffwyd Sechareia i'r genedl, bod Duw am ddanfôn Meseia atynt - 'brenin a fydd yn dod â buddugoliaeth a gwaredigaeth, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn' (Sechareia 9:9). Mae'r pedair efengyl yn nodi'r broffwydoliaeth hon wrth ddisgrifio taith Iesu i mewn i Jerwsalem ar Sul y Palmwydd - mae'n amlwg eu bod yn gweld proffwydoliaethau'r Hen Destament yn cael eu gwireddu yn Iesu.

Mae llawer o'r proffwydi wedi cael cliwiau tebyg gan Dduw a oedd yn cyfeirio at y Meseia. I ddweud y gwir, mae'r cyfeiriad cyntaf at Waredwr yn dod yn Genesis 3: 15, yn syth ar ôl pechod Adda ac Efa, pan mae Duw yn addo y bydd un o ddisgynyddion Efa un diwrnod yn difa pen y sarff. Rydym yn cyfrif hanes Iesu yn rhan o hanes Duw ar waith yn y presennol oherwydd trwy Iesu Grist mae pobl yn dod i berthynas byw â Duw heddiw. Mae'r gwaith a gyflawnodd Iesu yn ystod ei fywyd a'i farwolaeth yn cael effaith heddiw, wrth i bobl drwy'r byd ddod i greu ynddo a'i dderbyn yn Arglwydd ac yn Waredwr.

Cyflwyno'r Thema:

1. Mae gen i broblem!

Bydd angen darn o bapur â llinellau i bawb a beiro/pensel, gwobr fechan.

Esboniwch wrth y grŵp bod gennych broblem! Rydych yn sychedig ofnadwy, paned o de fase'n grêt, ond rydych wedi anghofio sut i wneud un! Mae'n rhaid i bawb ysgrifennu cynllun manwl sut i wneud paned o de. Ychwanegwch nad ydych yn dda iawn am ddarllen chwaith felly byddai lluniau o help mawr.

Rhowch gyfle i bawb greu cynllun cyn i chi ddewis y cynllun mwyaf llwyddiannus.

Esboniwch y byddwn yn ystyried cynllun Duw ar gyfer y byd yn ein gwrs heddiw.

2. Gêm Achub!

Rhannwch y grŵp yn dimoedd neu yn barau. Bydd angen tri darn o gerdyn maint A4 i bob tîm neu dau ddarn o gerdyn i bob pâr - gwnaiff bocsgrawnfwyd wedi'i dorri y tro'n iawn. Hefyd, gwobr i'r tîm buddugol.

Gofynnwch i'r bobl ifanc i ddychmygu eu bod mewn perygl mawr ar ochr yma i'r ystafell a'u bod angen cyrraedd y pen arall er mwyn bod yn ddiogel. Nod y gêm yw cael y tîm cyfan o un pen yr ystafell i'r llall gan ddefnyddio'r cerdyn yn unig i sefyll arno. Os ydych yn chwarae fel parau gallwch amseru bob pâr i weld pwy yw'r cyflymaf i gyrraedd pen y daith.

Rhowch funud neu ddau i'r timoedd i benderfynu ar strategaeth cyn cychwyn y gêm. Os bydd troed rhywun yn cyffwrdd â'r llawr mae'n rhaid cychwyn eto. Os bydd mwy na thri person yn y tîm bydd angen i un person fynd â'r cerdyn yn ôl er mwyn 'achub' y lleill.

Rhowch wobwr i'r tîm sy'n ennill.

Esboniwch fod y gêm yn ddarlun o'r hyn a wnaeth Iesu Grist pan fu farw ar y groes. Mae Iesu'n gallu ein hachub a dod â ni i berthynas gyda Duw.

Darllen a deall y Beibl

1. Beth yw lle Iesu yn stori Duw? (Luc 1:26-38)

Bydd angen y lluniau o Atodiad 7 (wedi'u torri'n barod), glud. Hefyd, bydd angen Beiblau a'r geiriau 'PROBLEM,' 'ATEB,' 'PECHOD,' 'IESU.'



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

❖ Gosodwch y lluniau o flaen y grŵp ac esboniwch y byddwn yn ceisio darganfod heddiw le Iesu yn Stori Duw. Gofynnwch iddynt osod y lluniau mewn trefn amser a thrafodwch bob llun wrth wneud hyn.

❖ Darllenwch Luc 1:26-38 a gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp - ysgrifennwch yr atebion o amgylch eich lluniau o Iesu:

1. Beth oedd neges yr angel i Mair? Adnod 31,35
2. Beth fydd enw'r mab? Adnod 31
3. Mab pwy fydd y baban? Adnod 32, 35 (Mab y goruchaf h.y. Mab Duw)
4. Gorsedd pwy fydd ganddo? Adnod 32 (Dafydd, h.y. bydd y babi yn etifedd i Dafydd ac yn Frenin)
5. Ar deyrnas pwy fydd y baban yn teyrnasu / yn frenin? Adnod 33 (Ar dŷ, h.y. teulu Jacob)
6. Am faint fydd y deyrnas hon yn para? Adnod 33 (Am byth)
7. Beth yw ystyr yr enw 'Iesu'? Mathew 1:21

❖ Cyfeiriwch yn ôl at sialens yr adran Cyflwyno'r Thema - 'Mae gen i broblem.' Dangoswch y gair 'PROBLEM' a gofynnwch i'r plant beth oedd eich problem. Yna, dangoswch y gair 'ATEB' a gofynnwch sut cafodd y broblem ei hateb.

❖ Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn cofio pa broblem barhaus oedd gan bobl Dduw (o'r sesiwn flaenorol) – 'pechod'. Gosodwch y gair 'PECHOD' o dan y teitl 'PROBLEM.'

Yn yr adnodau o Mathew, mae Duw yn rhoi'r ateb i'r broblem honno - Iesu. Darllenwch Mathew 1:21 eto. Daeth Iesu i'r byd i achub pobl o'u

pechodau. Gosodwch y gair 'IESU' o dan y teitl 'ATEB.'

❖ Pa ddau beth ddigwyddodd er mwyn i bechod y genedl gael ei faddau?

❖ 1. Cafodd un afr ei lladd yn lle'r bobl, yn cymryd eu cosb;

❖ 2. Cafodd y llall ei danfon allan o'r gwerysll yn 'cario' pechodau'r genedl. Dyma'r hyn a wnaeth Iesu ar y groes - cafodd ei ladd yn ein lle yn cymryd ein cosb, a chymerodd ein pechodau oddi wrthym.

Darllenwch Marc 15: 37,38. Roedd llen mawr yn y Deml yn atal pobl rhag mynd i'r lle pwysicaf yn y Deml. Roedd hyn yn arwydd i'r bobl nad oeddent yn ddigon da i fynd at Dduw a chael perthynas gydag ef oherwydd y pechod yn eu calonnau. Ond, wrth i Iesu farw dyma'r llen yn rhwygo yn ei hanner - beth y mae'r grŵp yn ei feddwl yw ystyr hyn? Yn syml iawn, mae'n dangos ei bod hi'n bosibl i bobl ddod at Dduw bellach mewn ffordd na allent cyn hynny - a bod y berthynas glos a fu rhwng Duw ac Adda ac Efa yn bosibl unwaith eto.

2. Beth yw fy lle i yn Stori Duw? (Rhuf. 8:15-17)

Bydd angen amlinelliad o adeilad capel/eglwys (Gweler Atodiad 8), casgliad o bobl papur a phensiliau lliw a glud.

Rhowch un person papur i bawb a gofynnwch iddynt greu person sy'n debyg iddyn nhw eu hunain.

❖ Cyfeiriwch yn ôl at y darlleniad o Luc ac at y ffaith i'r angel ddweud bod Iesu wedi dod i fod yn Frenin. Os byddwn yn cyffesu ein pechodau ac yn gofyn i Iesu i faddau inni, mae'n dod i fyw ynom i fod yn frenin arnom. Rydym yn cael perthynas newydd gyda Duw ac rydym yn dod



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

yn rhan o deulu Iesu a Duw. Mae Duw am inni fod yn rhan o'i Stori ef! Mae am inni ddod i berthynas ag ef. Trwy gredu yn Iesu mae hyn yn bosibl.

❖ Gosodwch amlinelliad yr eglwys o'u blaen. Dysgwyd yn ystod y gyfres ddiwethaf nad adeilad yw'r 'eglwys' ond pobl sydd mewn perthynas â Iesu Grist.

Pwy sy'n cael bod yn aelod o deulu Duw, yr Eglwys? (Rhuf. 8:15-17)

Mae pawb sy'n gofyn am faddeuant ac sy'n gwahodd Iesu i fod yn frenin yn eu calonnau yn derbyn yr Ysbryd Glân ac yn cael eu derbyn i fod yn blentyn i Dduw, yn aelod o'i deulu, yn rhan o'r Eglwys.

Gwahoddwch y bobl ifanc i ludo'r bobl papur ar yr amlinelliad. Yna, cymerwch y bobl papur sydd ar ôl a gofynnwch i'r plant i roi wynebâu a dillad iddynt. Cymerwch rhai o'r bobl a'u gludo ar yr amlinelliad gan esbonio bod y rhain yn cynrychioli'r bobl sydd wedi ymddiried yn Iesu i fod yn Waredwr iddynt ar hyd y blynyddoedd ers amser Y Beibl - pobl fel Dewi Sant, Thomas Charles y Bala a Mari Jones. Yna, gludwch bobl papur eraill arno gan esbonio eu bod yn cynrychioli Cristnogion sy'n byw mewn gwahanol wledydd yn y byd heddiw.

Rydym ni gyd yn rhan o Stori Dduw heddiw. Mae Duw ar waith yma yng Nghymru, hyd yn oed heddiw wrth inni dreulio amser yn darllen y Beibl, mae Duw ar waith yn ein calonnau yn ein helpu i ddeall ac ymateb.

Gweddïau

Defnyddiwch ddarlun yr Eglwys i arwain eich gweddïau.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n sicr eu bod yn perthyn i Dduw a'i Eglwys. Gofynnwch iddynt i weddïo am gymorth Duw i ddeall beth mae hyn yn ei olygu'n iawn.

Yna, cewch ddiolch i Dduw am yr holl bobl drwy hanes sydd wedi derbyn Iesu'n frenin - pobl fel Dewi Sant a Thomas Charles a wnaeth gymaint i helpu pobl Cymru ddod i adnabod Iesu Grist. Yn olaf, gweddïwch dros Gristnogion drwy'r byd heddiw - rhai yr ydych yn eu hadnabod a rhai sy'n wynebu trafferthion difrifol fel newyn, rhyfel a thlodi.

Beth am roi teitl i'ch darlun a'i osod ar y wal yn rhywle i'ch atgoffa i weddïo dros Eglwys Iesu Grist?

Gweithgarwch ychwanegol

Beth yw'r cynllun?

Sialens i atgyfnerthu'r pwynt dysgu heddiw - mai Iesu yw cynllun Duw i ddod â phobl yn ôl ato trwy ddelio gyda'u pechodau.

Bydd angen cwpan papur a siswrn i bob pâr yn y grŵp. Hefyd, gwobr fechan.

Y sialens yw torri'r cwpan i un stribed hir - gyda'r stribed hiraf yn ennill.

Oedd gan y tîm buddugol gynllun, neu mynd ati rywsut, rywsut wnaethant er mwyn ateb y sialens? Mae'n debyg bod ganddynt gynllun!

Wythnos 3:

Yn y sesiwn olaf yn ein cyfres ar 'Stori Fawr Duw' byddwn yn edrych ar hanes Duw yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried beth yw dysgeidiaeth y Beibl am fywyd ar ôl marwolaeth a'r nefoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn a ddywedodd Iesu amdanynt. Mae gan bobl lawer o syniadau am fywyd ar ôl marwolaeth, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi'u creu o'r dychymyg. Nid oes rhaid i'r Cristion ddychmygu beth sydd yn ei aros pan fydd y bywyd hwn yn dod i ben, oherwydd mae Iesu yn ein dysgu'n glir ar y mater – gan roi digon o



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

obaith a hyder i gredu bod popeth yn ei law ef, hyd yn oed yr hyn sydd i ddod.

Cyflwyno'r Thema:

1. Barod am y gwyliau

Dechreuwch y gêm gyda'r frawddeg hon, "Dwi'n mynd ar fy ngwyliau i Awstria, i sgïo, a dwi'n mynd â het wlanog gyda fi." Mae'r person nesaf yn ail-adrodd eich brawddeg gan ychwanegu cymal arall, "Dwi'n mynd ar fy ngwyliau i Awstria, i sgïo, a dwi'n mynd â het wlanog a throwsus dal dŵr gyda fi." Os na fydd person yn cofio'r rhestr yn llawn, byddant allan o'r gêm. Parhewch nes mai dim ond un person sydd ar ôl.

Gallwch chwarae eto gan ddechrau gyda brawddeg wahanol, e.e. "Dwi'n mynd i'r 'Steddfod yn yr haf a dwi'n mynd â..... gyda fi."

Chwaraewch y gêm hon er mwyn arwain at drafodaeth ar sut le ydy'r nefoedd, anogwch y bobl ifanc i rannu eu syniadau am y nefoedd. Esboniwch wedyn y byddwn yn ystyried heddiw beth oedd gan Iesu Grist i'w ddweud am y nefoedd.

2. Y lle gorau yn y byd

Gwahoddwch wirfoddolwyr i siarad o flaen y grŵp am y lle gorau yn y byd - lle go iawn neu le dychmygol. Byddai cynnig gwobr am yr araith orau yn help efallai!

Byddai'n syniad i chi ddechrau'r gystadleuaeth eich hun, yn esiampl i'r grŵp o'r hyn sydd gennych mewn golwg.

Yna, gofynnwch i'r grŵp i feddwl pe byddent yn cael cyfle i greu byd perffaith i fyw ynddo, beth fyddent yn ei gynnwys?

Esboniwch y byddwn yn ystyried heddiw beth ddywedodd Iesu Grist am y nefoedd ac am weledigaeth Iesu o'r nefoedd.

Darllen a deall y Beibl (Iwan 14:1-6)

Bydd angen copi o Atodiad 9 i bawb, pensiliau lliw a Beiblau. Darn mawr o bapur gyda'r geiriau 'Y DYFODOL' wedi'i ysgrifennu fel pennawd ar frig y papur; o dan y pennawd byddwn yn ychwanegu dau is-deitl. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael copïau o Beibl Lliw y Plant.

Cyn darllen adnodau Iwan, esboniwch wrth y grŵp bod Iesu'n ceisio paratoi'r disgyblion am ei farwolaeth. Mae Iesu a'r disgyblion wedi mynd i Jerwsalem ac newydd gymryd Swper y Pasg gyda'i gilydd. Mae Iesu wedi eu rhybuddio y bydd un ohonynt yn ei fradychu ac un arall yn mynd i'w wadu. Mae'n rhaid bod y disgyblion yn teimlo'n ofnus ac yn ddryslyd wrth feddwl bod ei Meistr ar fin eu gadael a bod rhai o'u plith yn mynd i'w wrthod fel hyn. Felly, dyma Iesu'n eu cysuro gyda'r geiriau hyn.

Darllen Iwan 14:1-6

Gofynnwch y cwestiynau canlynol a gofynnwch i'r grŵp i danlinellu'r atebion gyda lliwiau gwahanol ar gyfer pob ateb.

1. Beth **nad yw** Iesu am iddynt ei wneud yn adnod 1? (Peidiwch cynhyrfu)
2. Beth mae Iesu **am** iddynt ei wneud yn adnod 1? (Credwch yn Nuw ac ynddo ef)
3. I ble mae y Iesu'n dweud y mae'n mynd yn adnod 2? (I dŷ ei Dad, h.y. y nefoedd - gweler Mathew 6:9)
4. Pam mae Iesu'n mynd yno – eto yn adnod 2? (I baratoi lle ar eu cyfer)
5. Beth fydd Iesu'n gwneud wedyn, yn adnod 3? (Yn dod i'w nôl nhw)
6. Beth fyddant yn gwneud wedyn, yn adnod 3? (Yn aros yno gydag Iesu)
7. Beth yw cwestiwn Tomos, yn adnod 5? (Sut allwn ni wybod y ffordd yno?)
8. Beth yw ateb Iesu yn adnod 6? (Fi ydy'r ffordd)

Gofynnwch i'r grŵp i roi'r hyn a ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion mewn brawddeg.

Gosodwch y papur gyda'r pennawd 'Y DYFODOL' ar y bwrdd o flaen y grŵp, neu rhywle lle gall pawb ei weld. Ychwanegwch yr hyn a



ddywedodd Iesu am y dyfodol wrth y disgyblion fel dau is-deitl - 1. Mae Iesu'n mynd i'r nef ond bydd yn dod i'w nôl; 2. Byddant yn cael aros y nefoedd gyda Iesu.

Byddwn yn ystyried y ddau bwynt yma ymhellach.

1. Mae Iesu'n dod yn ôl

Esboniwch fod Iesu'n defnyddio darluniau i helpu ei ddisgyblion i ddeall beth fydd yn digwydd pan ddaw ef yn ôl i'r byd. Darllenwch y damhegion gyda'ch gilydd.

❖ Darlun y 10 forwyn - Mathew 25:1-13 (ar Atodiad 9)

Efallai bydd y grŵp yn cofio astudio'r ddameg hon o'r blaen. Trwy'r ddameg mae Iesu'n rhybuddio'r disgyblion y bydd yn dychwelyd ar amser anhysbys, felly mae'n rhaid eu bod yn barod i'w groesawu.

Ysgrifennwch y ddau bwynt yma o dan yr is-deitl, 'Mae Iesu'n dod yn ôl'.

❖ Darlun y defaid a'r geifr - Mathew 25:31-34 (ar Atodiad 9)

Darllenwch yr adnodau cyn gofyn y cwestiynau canlynol i'r grŵp:

1. Tebyg i beth fydd Iesu pan ddaw yn ôl, yn adnod 31? (Fel brenin)
2. Beth ydy ystyr y gair 'ysblander' yn adnod 31?
3. Pwy fydd gydag ef, yn adnod 31? (Yr angylion)
4. Ar beth fydd e'n eistedd, yn adnod 31? (Ar orsedd hardd o'r nefoedd)
5. Pwy fydd yn casglu o'i flaen, yn adnod 32? (Pawb)
6. Beth fydd Iesu yn ei wneud wedyn, yn adnod 32 a 33? (Eu rhannu'n ddau grŵp)
7. Beth ydy'r peth cyntaf fydd Iesu'n ei ddweud wrth y rhai sydd ar yr ochr dde iddo, yn adnod 34?
8. Beth sydd gan Dduw ar gyfer y bobl yma, yn adnod 34?

9. Pwy, fel arfer, sy'n cael 'etifeddiaeth'? (Plant y person sydd wedi marw)

10. Pwy ydy plant Duw? (Cyfeiriwch yn ôl at wers yr wythnos ddiwethaf. Os yn bosibl, dangoswch amlinelliad yr Eglwys a grewyd. Yn rhan olaf y wers honno, gwelsom mai pobl sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu, ac sydd wedi ei dderbyn yn Frenin yn eu calonnau sydd yn dod yn rhan o deulu Duw - Rhufeiniaid 8:15-17)

Gofynnwch i'r grŵp i awgrymu beth yw'r pwyntiau pwysig o'r darlun y dylwn eu cofnodi o dan yr is-deitl - 'Mae Iesu'n dod yn ôl.'

Sut allwn ni fod yn barod i groesawu Iesu'n ôl?

2. Byddwn yn cael aros yn y nefoedd gyda Iesu

Cyfeiriwch yn ôl at y syniadau oedd gan y bobl ifanc ar ddechrau'r wers am y nefoedd.

Os nad oes amser gennyh i chwilio am yr adnodau canlynol ceuwch ysgrifennu cynnwys yr adnodau yn unig o dan yr is-deitl yma. Efallai yr hoffech ychwanegu'r cwestiwn, 'Sut le ydy'r nefoedd' o dan yr is-deitl.

Sut le ydy'r nefoedd?

❖ Roedd Iesu'n siarad am y nefoedd fel ei gartref - roedd wedi dod o'r nefoedd ble mae Duw ei Dad yn byw (Ioan 6:38, Math. 6:9), ac mae'n gwybod ei fod yn mynd yn ôl i'r nefoedd (Ioan 14:2). Mae Iesu'n sôn am y nefoedd fel cartref yr angylion, yn le llawen (Luc 15:7), yn le sy'n llawn o drysorau ar gyfer ei bobl (Math. 19:21), y bobl sydd â'u henwau wedi'u hysgrifennu yno (Luc 10:20).

❖ Trowch i lyfr olaf y Beibl ac edrychwch ar ei deitl. Esboniwch mai Ioan, un o ddisgyblion Iesu a ysgrifennodd y llyfr hwn. Beth yw ystyr y gair 'Datguddiad'?

Esboniwch wrth y grŵp fod Ioan wedi cael gweledigaeth neu freuddwyd gan Dduw am y nefoedd. Er bod rhai adrannau o'r llyfr yn anodd eu deall am eu bod yn defnyddio darluniau, mae



Oed 11 - 14

Y Beibl: Stori Fawr Duw

'na llawer yn y llyfr sy'n dangos yn glir sut le ydy'r nefoedd.

❖ Darllenwch bennod olaf y 'Beibl Lliw i Blant', 'Datguddiad Ioan.' Mae'r bennod yn cyfleu cynnwys llyfr y Datguddiad yn wych.

❖ Gofynnwch i'r bobl ifanc beth mae'r darlenniad yn ei ddweud wrthym am y nefoedd. Copiwch y prif bwyntiau o dan yr is-deitl, 'Byddwn yn cael aros yn y nefoedd gyda Iesu.'

❖ Sut deimladau sydd gan y grŵp wrth feddwl am y nefoedd? Ydy'r hyn y mae'r Beibl yn ei ddweud yn debyg i'r syniadau sydd gennym?

Dau gwestiwn pwysig

Bydd angen y ddau lun o Atodiad 5 arnoch - llun gafr a llun arch.

1. Beth am y geifr?

Mae'r defaid yn cael mynd gyda Iesu, ond i ble mae'r geifr yn mynd? Darllenwch Mathew 25:41 a 46. Efallai nad yw hi'n hawdd neu'n boblogaidd i sôn am uffern ond roedd Iesu'n credu bod y fath le yn bodoli ac mae'n cyfeirio ato sawl gwaith - Mathew 5:22,29,30; Mathew 10:28; Mathew 23:15,33; Marc 9:43,45,47; Luc 12:5; Mathew 8:12; 13:42,50; Mathew 22:13; Mathew 24:51; Mathew 25:30; Luc 13:28.

Mae uffern yn le ofnadwy, lle sy'n dragwyddol, lle o gosb. Dyma'r lle y mae Iesu'n dweud y bydd y 'geifr' yn mynd. Y 'geifr' ydy'r rhai sydd ddim yn rhan o deulu Duw. Dyma'r bobl yn Datguddiad 20:15 sydd heb eu henwau yn Llyfr y Bywyd.

2. Beth sy'n digwydd i mi os ydwi'n marw cyn i Iesu ddod yn ôl i'r byd?

Unwaith eto, mae Iesu'n ateb y cwestiwn hwn inni.

❖ Luc 23:39-43, hanes y ddau leidr ar y groes. Beth ddywedodd Iesu wrth un o'r lladron? Adnod 43.

Mae'r sawl sydd wedi derbyn Iesu yn frenin ac wedi profi ei faddeuant yn cael mynd ato yn y nef pan fyddant yn marw.

❖ Ioan 3:16. Mae Iesu'n esbonio wrth Nicodemus bod y rhai sy'n credu ynddo ef yn derbyn bywyd tragwyddol. Dydy bywyd rhywun sy'n ymddiried yn Iesu ddim yn dod i ben pan fyddant yn marw; maent yn parhau i fyw gyda Iesu yn y nef.

Amser Gweddïo

Rydym wedi trafod llawer o ddysgeidiaeth yn y sesiwn hwn. Efallai bod rhan helaeth ohono yn newydd i'ch grŵp. Gadewch iddynt gymryd amser i feddwl dros y wers gan edrych ar y cymorth gweledol eto, ac i dreulio amser yn gweddïo'n bersonol. Pwysleiswch bod yn rhaid i bob un ofalu eu bod yn barod i gyfarfod â Iesu - does neb yn gallu gwneud hyn drosom.

Atgoffwch y grŵp am eiriau Iesu i'r disgyblion a ddarllenwyd ar ddechrau'r wers, "**Peidiwch cynhyrfu**. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof fi hefyd. Mae digon o le i fyw yn nhŷ fy Nhad; byddwn wedi dweud wrthyfch pe bai hi fel arall. Dwi'n mynd yno i baratoi lle ar eich cyfer chi. Wedyn dwi'n mynd i ddod yn ôl, a bydda i'n mynd â chi yno gyda mi, a chewch chi aros yno gyda mi. 'Dych chi'n gwybod y ffordd i ble dwi'n mynd.'" Does dim angen i bobl Dduw boeni am y dyfodol, dim ond credu bod gan Dduw gynllun ar ein cyfer yn y dyfodol hefyd.

Efallai yr hoffai'r grŵp gopïo'r adnodau ar ddarn o gerdyn i greu nod llyfr (gweler isod).

Gweithgarwch ychwanegol




❖ Creu nod llyfr gyda Ioan 14:1-6. Darparwch amrywiaeth o offer i'r bobl ifanc greu nod llyfr neu boster gyda geiriau Iesu o Ioan 14 arno.

❖ Gwrando ar gân sy'n disgrifio'r dyfodol.



Atodiad 1








Y Beibl: Stori Fawr Duw





Atodiad 2

Y Beibl: Stori Fawr Duw





Atodiad 3

Y Beibl: Stori Fawr Duw

Yr Hen Destament

Y Testament Newydd

1	Genesis	21	Y Pregethwr	1	Efengyl Mathew	21	Pedr 1
2	Exodus	22	Caniad Solomon	2	Efengyl Marc	22	Pedr 2
3	Lefiticus	23	Eseia	3	Efengyl Luc	23	Ioan 1
4	Numeri	24	Jeremeia	4	Efengyl Ioan	24	Ioan 2
5	Deuteron *	25	Galarnad	5	Actau	25	Ioan 3
6	Josua	26	Eseciel	6	Rhufeiniaid	26	Jwdas
7	Y Barnwyr	27	Daniel	7	Corinthiaid 1	27	Datguddiad
8	Ruth	28	Hosea	8	Corinthiaid 2		
9	Samuel 1	29	Joel	9	Galatiaid		
10	Samuel 2	30	Amos	10	Effesiaid		
11	Brenhinoedd 1	31	Obadeia	11	Philipiaid		
12	Brenhinoedd 2	32	Jona	12	Colosiaid		
13	Cronicl 1	33	Micha	13	Thesaloniaid 1		
14	Cronicl 2	34	Nahum	14	Thesaloniaid 2		
15	Esra	35	Habacuc	15	Timotheus 1		
16	Nehemeia	36	Seffaneia	16	Timotheus 2		
17	Esther	37	Haggai	17	Titus		
18	Job	38	Sechareia	18	Philemon		
19	Y Salmau	39	Malachi	19	Hebreaid		
20	Y Diarhebion			20	Iago		


2 Timotheus 3:14-17

Ond dal di dy afael yn yr hyn a ddysgaist. Rwyd ti'n gwybod yn iawn mai dyna ydy'r gwir, ac yn gwybod sut bobl ddysgodd di. ¹⁵ Roeddet yn gyfarwydd â'r ysgrifau sanctaidd ers yn blentyn. Trwyddyn nhw y daethost i ddeall sut i gael dy achub, drwy gredu yn y Meseia Iesu. ¹⁶ Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos yr hyn a wnawn o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn. ¹⁷ Felly, mae gan bobl Dduw bopeth sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud pob math o bethau da.



“Felly, frodyr a
chwiorydd, dwi am i
chi ddeall fod
maddeuant pechodau
ar gael i chi o achos
yr hyn a wnaeth Iesu.
Trwyddo ef mae pawb
sy'n credu yn cael
perthynas iawn gyda
Duw.”

Actau 13:38



Enw fy hoff ffilm yw ..



Prif gymeriadau'r ffilm yw..

Mae'r ffilm yn cychwyn gyda..

Ar ddiwedd y ffilm..

Un o brif ddigwyddiadau'r ffilm yw..

Fy hoff ran o'r ffilm yw ..





Atodiad 6 Y Beibl: Stori Fawr Duw




Cymeriadau o'r Hen Destament ar gyfer Llinyn Amser.

Rhannwch y cyfeiriadau canlynol rhwng y grŵp:

<p><u>Adda ac Efa</u> Genesis 1:27; Genesis 2:15-18 Beibl Lliw y Plant – tud. 20</p>	<p><u>Abraham</u> Genesis 12:1,2; Genesis 21:1-3 Beibl Lliw y Plant – tud. 32</p>
<p><u>Isaac</u> Genesis 25:21,24-26 Beibl Lliw y Plant – tud. 40</p>	<p><u>Jacob</u> Genesis 35:23; Genesis 32:28 Beibl Lliw y Plant – tud. 46, 56</p>
<p><u>Joseff</u> Genesis 37:3; Genesis 45:4-6 Beibl Lliw y Plant – tud. 56 ymlaen</p>	<p><u>Moses</u> Exodus 3:1-10; Genesis 20:1-20 Beibl Lliw y Plant – tud. 71-82</p>
<p><u>Gideon</u> Gideon 6:1, 11-12,14 Beibl Lliw y Plant – tud. 96</p>	<p><u>Dafydd</u> 1 Samuel 16:10-13; 2 Samuel 22:22-25 Beibl Lliw y Plant – tud. 116</p>
<p><u>Daniel</u> Daniel 1:1,2; Daniel 2; 26-28, 48 Beibl Lliw y Plant – tud. 161, 162, 165</p>	<p><u>Jona</u> 3: 1-5, 10 Beibl Lliw y Plant – tud. 174</p>



Atodiad 7 Y Beibl: Stori Fawr Duw





1. Golcha dy ddwylo
 2. Cymer 2 ddarn o fara
 3. Rho ychydig o fenyn arno
 4. Rho jam neu gaws ar un darn
 5. Rho un darn ar ben y llall
 6. Torra'r frechdan yn ei hanner
- Bydd yn ofalus iawn gyda'r gyllell!





Ioan 14:1-6

lesu, y ffordd at y Tad

¹ “Peidiwch cynhyrfu,” meddai Iesu wrth y disgyblion, “Credwch yn Nuw, a chredwch ynof fi hefyd.” ² “Mae digon o le i fyw yn nhŷ fy Nhad; byddwn wedi dweud wrthy ch pe bai hi fel arall. Dwi'n mynd yno i baratoi lle ar eich cyfer chi. ³ Wedyn, dwi'n mynd i ddod yn ôl, a bydda i'n mynd â chi yno gyda mi, a chewch chi aros yno gyda mi. ⁴ ‘Dych chi'n gwybod y ffordd i ble dwi'n mynd.’ ⁵ “Ond Arglwydd,” meddai Tomos “dyn ni ddim yn gwybod ble rwyd ti'n mynd, felly sut allwn ni wybod y ffordd yno?” ⁶ “Fi ydy'r ffordd,” atebodd Iesu, “Fi ydy'r un gwir, a'r bywyd. Does neb yn gallu dod i berthynas gyda Duw y Tad ond trwof fi.

Mathew 25:1-13

Stori y deg morwyn briodas

¹ “Bryd hynny, pan fydd yr Un nefol yn dod i deyrnasu, bydd yr un fath â deg morwyn briodas yn mynd allan gyda lampau yn y nos i gyfarfod â'r priodfab. ² Roedd pump ohonyn nhw'n wirion, a phump yn gall. ³ Aeth y rhai gwirion allan heb olew sbâr. ⁴ Ond roedd y lleill yn ddigon call i fynd ag olew sbâr gyda nhw. ⁵ Roedd y priodfab yn hir iawn yn cyrraedd, ac felly dyma nhw i gyd yn dechrau pendwmpian a disgyn i gysgu. ⁶ “Am hanner nos dyma rhywun yn gweiddi'n uchel: ‘Mae'r priodfab wedi cyrraedd! Dewch allan i'w gyfarfod!’ ⁷ “Dyma'r merched yn deffro ac yn goleuo eu lampau eto. ⁸ Ond dywedodd y morynion gwirion wrth y rhai call, ‘Rhowch beth o'ch olew chi i ni! Mae ein lampau ni'n diffodd!’ ⁹ “Na wir,” meddai'r lleill, ‘fydd gan neb ddigon wedyn. Rhaid i chi fynd i brynu peth yn rhywle.’ ¹⁰ “Ond tra'r oedden nhw allan yn prynu mwy o olew, dyma'r priodfab yn cyrraedd. Aeth y morynion a oedd yn barod i mewn i'r wledd briodas gydag ef, a dyma'r drws yn cael ei gau. ¹¹ “Yn nes ymlaen cyrhaeddodd y lleill yn ôl, a dyma nhw'n galw, ‘Syr! Syr! Agor y drws i ni!’ ¹² “Ond dyma'r priodfab yn ateb, ‘Ond dwi ddim yn eich nabod chi!’ ¹³ “Gwylwch eich hunain felly! Dydych chi ddim yn gwybod y dyddiad na'r amser o'r dydd y bydda i'n dod yn ôl.

Mathew 25: 31-34

Y defaid a'r geifr

³¹ “Pan fydd Mab y Dyn yn dod yn ôl, bydd yn dod fel brenin i deyrnasu. Bydd yn dod mewn ysblender, â'r holl angylion gydag e, ac yn eistedd ar yr orsedd hardd sydd yno ar ei gyfer yn y nefoedd. ³² Bydd yr holl genhedloedd yn cael eu casglu o'i flaen, a bydd yn eu rhannu'n ddau grŵp fel mae bugail yn gwahanu'r defaid a'r geifr. ³³ Bydd yn rhoi'r defaid ar ei ochr dde a'r geifr ar ei ochr chwith. ³⁴ “Dyma fydd y Brenin yn ei ddweud wrth y rhai sydd ar ei ochr dde, ‘Chi ydy'r rhai mae fy Nhad wedi eu bendithio, felly dewch i dderbyn eich etifeddiaeth. Mae'r cwbl wedi ei baratoi ar eich cyfer ers i'r byd gael ei greu.





Beth sydd yn y canol?

Mae rhan gyntaf y gwasanaeth yn rhoi cyfle i'r plant i gymryd rhan gan ddefnyddio pethau y mae'n nhw wedi'u gwneud yn ystod y gwersi.

Mae rhestr o ganeuon y gallwch eu defnyddio ar ddiwedd y gwasanaeth hwn.

Beth am gael rhai o'r plant/pobl ifanc i gynorthwyo i gyfeilio yn ystod y gwasanaeth?

Defosiwn: Gair o groeso, gweddi, emyn/cân

Eitemau gan y plant

Byddai'n syniad cael rhywun i esbonio bod yr eitemau yn deillio o wersi'r Ysgol Sul am y Beibl.

Plant 6-11oed: Cyflwyno'r Beibl fel llyfrgell.

Gaellwch ddefnyddio'r syniad o 'Cyflwyno'r Hanes' 6-11 oed ('Y Beibl – Stori Fawr Duw') a'i addasu fel bod y plant yn cyflwyno llyfrau'r Beibl. Beth am cael un o'r plant i ddarllen 2 Timotheus 3:14-17 a rhai o'r plant i esbonio'r darlenniad gyda'r esboniad o'r wers? ("Dyma werth y Beibl....").

Plant lau: dangos y gwaith crefft a'r Weddi o'r 'Adran Amser Gweddi'. Gall un o'r athrawon ddarllen y weddi a'r plant i ymateb.

Emyn /cân

Cyflwyniad 1:

Yr angen am loches

Bydd angen amrywiaeth o eitemau sy'n ein hamddiffyn rhag yr haul, e.e. eli haul, sbectol haul, het haul, hances wedi'i throï'n het haul, ymbarel haul, dillad arbennig sydd yn amddiffyn rhag pelydrau UV yr haul.

Dangoswch yr eitemau i'r plant a gofynnwch iddynt beth yw'r cysylltiad rhyngddynt. Pa rai o'r rhain mae'r plant yn eu defnyddio? Pam fod angen yr holl bethau hyn arnom?

Os ydych wedi arfer mynd i wlad boeth ar eich gwyliau gellwch siarad o brofiad am bwysigrwydd yr eitemau i'ch cadw rhag llosgi yn yr haul. Neu, gofynnwch i'r plant os ydynt wedi bod mewn gwlad boeth.

Gwnewch y pwynt bod yr eitemau yn ein hamddiffyn rhag yr haul, rhag ofn i ni gael niwed a mynd yn sâl.

Cyflwynwch y gair 'lloches' trwy ddweud, weithiau mae hi mor boeth yn yr haul y mae'n rhaid inni geisio 'lloches', h.y. rhywle diogel allan o'r haul.

Ydy'r plant yn gyfarwydd ag unrhyw 'loches' arall?

Beth am anifeiliaid sy'n 'llochesu' gyda'u mam mewn perygl? Neu mewn gêm o tip/tag, bydd un man diogel lle nad oes neb yn cael eich cyffwrdd a'ch cael allan o'r gêm.

Heddiw, byddwn yn trafod y lloches y mae Duw yn gynnig inni.



Gwasanaeth Teuluol Y Beibl: Stori Fawr Duw

Cyflwyniad 2:

Beth sydd yn y canol?

Bydd angen bwrdd dartiau a saeth (dart) neu lun o fwrdd dartiau. Hefyd, Beibl. Mae'r cyflwyniad hwn ar gael ar ffurff Powerpoint ar y Gdd. Os nad oes modd defnyddio'r cyflwyniad Powerpoint bydd angen y canlynol wedi'u hysgrifennu'n barod ar ddarn mawr o bapur yn gymorth gweledol i'r sgwrs.

Os fedrwch chi ddod o hyd i fwrdd dartiau gellir gynnal cystadleuaeth syml, trwy wahodd tri o'r gynulleidfa ymlaen i weld pwy sy'n gallu taro'r 'bullseye', neu pwy ydy'r agosaf ato! Os nad yw hyn yn bosibl, sgwrsiwch am chwarae dartiau ac am bwysigrwydd canol y bwrdd, y 'bullseye.'

Dangoswch eich Beibl i'r gynulleidfa, a gofynnwch am wirfoddolwr i'w agor mor agos i'r canol ag sy'n bosibl. Salm 118 yw canol y Beibl.

Edrychwch ar y ffeithiau gyda'r gynulleidfa a rhyfeddu! (*Mae'r rhain ar y cyflwyniad Powerpoint ar y Gdd*).

Pa un yw'r bennod fyrraf yn y Beibl

Salm 117

Pa un yw'r bennod hiraf yn y Beibl?

Salm 119

Pa bennod sydd yng nghanol y Beibl?

Salm 118

Mae yna 594 o benodau cyn Salm 118

Mae yna 594 o benodau ar ôl Salm 118

$$\begin{array}{r} 594 \\ + \quad 594 \\ \hline 1188 \end{array}$$

Rhyfedd – 1188?

Beth yw 118, adnod 8?

"Mae'n well ymddiried a chael lloches rhag gelynion yn yr ARGLWYDD nag ymddiried mewn unrhyw ddyn arall."

Gwnewch yn siŵr bod y plant wedi sylwi ar y gair 'lloches' yn yr adnod. Trafodwch beth yw ystyr cael 'lloches' yn Nuw. Esboniwch mai Dafydd a ysgrifennodd y salm hon a bod gan Dafydd elynion – pobl a oedd eisiau ei ladd. Roedd y bobl hyn yn elynion i Dduw hefyd am nad oeddent yn caru Duw nac yn ceiso bod yn ufudd iddo. Roedd Dafydd yn ofni ei elynion ond roedd yn ymddiried y byddai Duw gydag ef ac yn ei gadw'n ddiogel – yn rhoi 'lloches' iddo.

Dysgu'r adnod

Cyflwyniad 3:

Rhywun sy'n ymddiried - iacháu dyn wedi ei barlysu (Marc 2)

Bydd angen y 'Beibl Bach i Blant'.

Darllenwch yr hanes 'Syniad Da', tudalen 41.

Gwahoddwch y gynulleidfa i ymuno gyda'r symudiadau canlynol: dyn = *taro'r coesau*; ffrindiau = *ysgwyd llaw gyda'r person nesaf atynt*; tŷ = *esgus adeiladu tŷ a gwneud siâp to gyda'r dwylo*.

Ar ôl darllen, gofynnwch i'r plant pwy yn y stori oedd yn ymddiried yn Iesu?



Gwasanaeth Teuluol Y Beibl: Stori Fawr Duw

Gan eu bod yn ymddiried yn Iesu, beth fentrodd y pedwar ffrind ei wneud?

Felly, beth yw ystyr ymddiried? Mynd â'r broblem at Iesu gan wybod ei fod yn abl ac yn barod i'n helpu.

Beth oedd Dafydd am wneud? Mynd â'r broblem at Dduw gan wybod ei fod yn abl ac yn barod i'w helpu.

Ar ddiwedd hanes y dyn cloff mae Iesu'n cyfeirio at broblem arall oedd gan y dyn – ei bechod. Darllenwch y frawddeg hon o'r hanes eto, "Mae popeth drwg wnest ti wedi cael ei faddau." Mae Iesu'n gallu delio â'n holl broblemau – mae gan bob un ohonom broblem, sef pechod, ac mae Iesu'n gallu maddau.

Beth yw neges ganolog y Beibl? Ymddiried yn Nuw. Gallwn ymddiried y bydd Duw yn ein helpu i wynebu unrhyw broblem sy'n codi, ond yn fwy na hynny, gallwn ymddiried y bydd yn ein helpu pan ofynnwn iddo i ddelio â'n pechod.

Gweddïau o ddiolch:

Mae'r weddi ar gael ar y cyflwyniad Powerpoint gyda lluniau.

'O Dduw, rydym am ddiolch i Ti heddiw am y Beibl.

Diolch am siarad â ni trwy'r Beibl.

Diolch am ddangos inni drwy'r Beibl sut y gallwn ddod i dy adnabod di.

Diolch fod y Beibl yn ein dysgu am Iesu Grist, iddo fyw ar y ddaear a marw ar y groes er mwyn i ni gael maddeuant am ein pechodau a chael perthynas gyda Thi.

Diolch fod y Beibl yn dangos inni sut i fyw i dy blesio.

Diolch am gymorth yr Ysbryd Glân i'n helpu i ddeall ac i fod yn ufudd.

Diolch am bawb sydd yn ein helpu i ddeall Dy Air yn well.

Helpa ni, Arglwydd, i drysori Dy Air ac i gymryd amser bob dydd i'w ddarllen.

Helpa ni heddiw i ymddiried ynot, fel y gwnaeth Dafydd a ffrindiau'r dyn sâl.

Er clod i Dy Enw.'

Amen.

Cymhwyso i'r oedolion – os dymunwch (*gellwch rannu taflenni addas i'r plant i'w cwblhau yn ystod y cyfnod yma*).

Emynau/Caneuon:

Caneuon Ffydd: 163, 368, 422, 686;

Tyrd i Ddathlu: 32, 29, 27, 26, 15;

Y Cyntaf a'r Olaf: 15, 18, 31, 24.

